Trosglwyddo Asedau Cymunedol

Nodiadau arweiniad y rhaglen: Rownd 2

Mae'r arweiniad hwn ar gyfer sefydliadau sy'n bwriadu ymgeisio am grant gan Rownd 2 y rhaglen Trosglwyddo Asedau Cymunedol (CAT). Dyma raglen gwerth £13 miliwn a ariennir ar y cyd gan y Gronfa Loteri Fawr a Llywodraeth Cynulliad Cymru, gan gynnwys grantiau cyfalaf a refeniw. Mae'r Gronfa Loteri Fawr yn gweinyddu'r grantiau ar ran Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Bydd yr arweiniad hwn yn eich helpu i ddeall y broses ymgeisio ac yn darparu gwybodaeth allweddol am y rhaglen. Ar ôl darllen y nodiadau arweiniad hyn yn drwyadl, os credwch fod eich prosiect yn gymwys ac y gallai fod yr hyn rydym yn chwilio amdano, cysylltwch â ni yn cat@cronfaloterifawr.org.uk i gofrestru eich diddordeb yn y rhaglen a gofyn am ffurflen ymgeisio. Bydd ffurflenni ymgeisio ar gael ar gais yn unig ac ni fyddant yn cael eu rhoi ar ein gwefan. Darllenwch yr arweiniad hwn yn ofalus cyn i chi gyflwyno eich ffurflen ymgeisio.

Os oes gennych chi neu eich prif gyswllt unrhyw anghenion cyfathrebu penodol, megis Braille, print bras, tâp sain, iaith arwyddion neu iaith gymunedol, ffoniwch ni ar 029 2067 8200 (ffôn testun 0845 602 1659, ar gyfer pobl sydd â nam ar y clyw).

Côd stoc: CATGNW1

Copïau pellach ar gael gan:
Ffôn: 029 2067 8200
Ffôn testun: 0845 6 02 16 59
E-bost: ymholiadau.cymru@cronfaloterifawr.org.uk
Ein gwefan: www.cronfaloterifawr.org.uk

Hygyrchedd
Cysylltwch â ni i drafod unrhyw anghenion cyfathrebu penodol sydd gennych.

Ein hegwyddorion cydraddoldeb
Hyrwyddo hygyrchedd; gwerthfawrogi amrywiaeth ddiwylliannol; hyrwyddo cymryd rhan; hyrwyddo cyfleoedd cyfartal; hyrwyddo cymunedau cynhwysol; lleihau anfantais a gwaharddiad. Ymwelwch â'n gwefan am ragor o wybodaeth.

Rydym yn gofalu am yr amgylchedd
Mae'r Gronfa Loteri Fawr yng Nghymru yn gweithio tuag at ddatblygiad cynaliadwy a'r defnydd o adnoddau cynaliadwy.

Ein gweledigaeth
Rydym wedi'n hymrwymo i ddod â gwir welliannau i gymunedau ac i fywydau'r bobl fwyaf anghenus.

Ein gwerthoedd
Rydym wedi adnabod saith gwerth sy'n sail i'n holl waith: tegwch; mynediad hawdd; ffocws strategol; cynnwys pobl; arloesedd; galluogi; ychwanegol at y llywodraeth.

Mae'r Gronfa Loteri Fawr yn ymrwymedig i werthfawrogi amrywiaeth a hyrwyddo cyfle cyfartal, a hynny fel dosbarthwr grantiau a chyflogwr. Bydd y Gronfa Loteri Fawr yn anelu at fabwysiadu ymdriniaeth gynhwysol tuag at sicrhau bod ymgeiswyr a derbynyddion grantiau, budd-ddeiliaid, ymgeiswyr am swyddi a gweithwyr yn cael eu trin yn deg.

© Cronfa Loteri Fawr, Ebrill 2010

Yn dyfarnu arian
Y Loteri Genedlaethol
Awarding funds from
The National Lottery®

Cynnwys

Ynglŷn â Llywodraeth Cynulliad Cymru a'r Gronfa Loteri Fawr 4

Rhan un

Ynglŷn â'r rhaglen Trosglwyddo Asedau Cymunedol 5

Nod ac egwyddorion y rhaglen 6

Canlyniadau 6

Pwy all ymgeisio am ariannu? 8

Beth fyddwn yn ei ariannu? 9

Rhan dau

Ymgeisio i'r rhaglen Trosglwyddo Asedau Cymunedol am ariannu 14

Y broses ymgeisio 16

Beth fydd yn digwydd os dyfernir grant i chi 18

Monitro a gwerthuso 20

Rhan tri

Cyn i chi lenwi eich cais 22

Atodiad un: Rhestr Termau 25

Atodiad dau: Enghreifftiau o Brosiectau 29

Ynglŷn â Llywodraeth Cynulliad Cymru a'r Gronfa Loteri Fawr

Ynglŷn â Llywodraeth Cynulliad Cymru

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru (LlCC) yn gweithio i adfywio cymunedau Cymru, yn enwedig y rhai mwyaf difreintiedig. Mae dogfen Cymru'n Un yn amlinellu gweledigaeth y Llywodraeth ar gyfer Cymru. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru eisiau gweld Cymru lle mae pobl wedi'u grymuso i ailadeiladu sylwedd cymdeithasol, economaidd a diwylliannol eu cymunedau. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n mabwysiadu ymagwedd integredig at ddatblygu polisïau ar gyfer trosglwyddo a pherchen ar asedau cymunedol.

Am fwy o wybodaeth, ewch i http://www.cymru.gov.uk/

Ynglŷn â'r Gronfa Loteri Fawr

Mae'r Gronfa Loteri Fawr yn gyfrifol am ddosbarthu hanner yr arian a godir gan y Loteri Genedlaethol at achosion da. Ein cenhadaeth yw dod â gwir welliannau i gymunedau a bywydau'r bobl fwyaf anghenus. Rydym eisiau defnyddio arian y Loteri i wneud newidiadau mawr a chadarnhaol mewn cymunedau drwy ariannu pobl, prosiectau a rhaglenni mewn ffordd deg ac agored, gan roi pwyslais penodol ar fynd i'r afael ag angen. Am fwy o wybodaeth am hyn o beth, darllenwch ein llyfryn 'Cenhadaeth a Gwerthoedd' ar ein gwefan.

Mae'r rhaglen CAT yn un yn unig o'n rhaglenni grantiau. Gallwch gael gwybod am ein rhaglenni eraill drwy fynd i www.cronfaloterifawr.org.uk neu drwy gysylltu â ni ar 029 2067 8200, ffôn testun 0845 602 1659, neu e-bost: ymholiadau.cymru@cronfaloterifawr.org.uk

Mae sefydliadau eraill yn dyfarnu grantiau'r Loteri yn ogystal â'r Gronfa Loteri Fawr. Gallwch gael gwybodaeth am y rhain drwy fynd i www.arianyloteri.org.uk neu ffonio llinell gymorth Arian y Loteri ar 0845 275 0000 (ffôn testun 0845 275 0022).

Gweithio mewn partneriaeth

Dangosodd ymatebion i ymgynghoriad y Farn Fawr fod budd-ddeiliaid yn teimlo'n hynod gadarnhaol o ran gwaith partneriaeth rhyngom ni â Llywodraeth Cynulliad Cymru i rymuso cymunedau drwy hwyluso trosglwyddo asedau i sefydliadau trydydd sector. Trwy gydweithio i ariannu rhaglen CAT ar y cyd, rydym wedi cyfuno arian y Llywodraeth ac arian y Loteri i ddarparu rhaglen grant sengl sy'n darparu arian cyfalaf a refeniw. Er ei bod yn ddosbarthwr Loteri'n bennaf, gall y Gronfa Loteri Fawr ddosbarthu arian o ffynonellau eraill, megis ymddiriedolaethau a sefydliadau'r llywodraeth hefyd. Byddwn yn gwneud hyn dim ond pan deimlwn y gallwn ychwanegu gwerth gwirioneddol a sicrhau gwell bargen ar gyfer buddiolwyr ein hariannu.

Dylanwadwyd yn drwm ar ddatblygiad y rhaglen CAT a'r bartneriaeth rhwng y Gronfa Loteri Fawr a Llywodraeth Cynulliad Cymru gan Adolygiad Quirk, dysgu o'n buddsoddiadau mewn trosglwyddo asedau yn y gorffennol ac ymatebion i ymgynghoriadau gydag amrediad eang o fudd-ddeiliaid. Dangosodd Making Assets Work: the Quirk review of community ownership and management of public assets y cyfle gwirioneddol i rymuso cymunedau y mae trosglwyddo asedau'n ei gynnig. Dangosodd hefyd fod hyn yn gweithio orau fel rhan o strategaeth ehangach o waith partneriaeth da rhwng cymunedau, y trydydd sector a'r sector cyhoeddus.

Rhan un

Ynglŷn â'r rhaglen Trosglwyddo Asedau Cymunedol

Rydym eisiau helpu cymunedau i fod yn gryfach ac yn fwy cynaliadwy drwy eu cynorthwyo i ddod o hyd i asedau megis tir ac adeiladau a'u datblygu. Mae'r rhaglen CAT yn rhaglen strategol sy'n canolbwyntio ar alluogi cymunedau i gael mwy o reolaeth a dylanwad dros eu dyfodol. Trwy'r rhaglen CAT, byddwn yn buddsoddi hyd at £13 miliwn mewn cymunedau er mwyn eu helpu i drosglwyddo, datblygu, rheoli a chynnal asedau er mwyn gwella eu bywoliaeth a'u cymdogaethau.

Dylid defnyddio asedau i gynhyrchu ffrydiau incwm a darparu gwasanaethau ac amwynderau o safon sy'n ddichonol ac yn gynaliadwy **yn economaidd, yn gymdeithasol ac yn amgylcheddol** yn yr hir dymor.

Credwn y gall perchen ar asedau cymunedol annog pobl i ymwneud yn fwy gweithredol â'u cymunedau eu hunain, ddylanwadu ar yr hyn sy'n digwydd a chymryd rhan wrth wneud penderfyniadau. Trwy'r rhaglen CAT, gobeithiwn y bydd mwy o bobl yn dechrau ymwneud â phenderfynu sut mae asedau'n cael eu defnyddio a chydweithio i fynd i'r afael ag anghenion, gan arwain at gydnabyddiaeth gynyddol o bwysigrwydd adfywio a arweinir gan y gymuned.

Rhaglen Trosglwyddo Asedau Cymunedol: rowndiau ariannu

Cydnabyddwn y bydd diddordeb gan amrywiaeth o brosiectau posib wrth hygyrchu'r arian hwn ac y byddant mewn camau datblygu amrywiol. Gan hynny, caiff y rhaglen CAT ei chyflwyno dros dair rownd ariannu gystadleuol.

Rownd 1: Trywydd Cyflym – AR GAU

Roedd Rownd 1 yn cynnwys rownd Trywydd Cyflym, a gyflwynwyd i alluogi buddsoddiad cyflym mewn prosiectau a oedd yn gwbl ddatblygedig ac yn barod i gael eu rhoi ar waith yn syth. 4 Rhagfyr 2009 oedd y terfyn amser ar gyfer mynegiadau o ddiddordeb, ac mae'r rownd Trywydd Cyflym bellach ar gau.

Rownd 2

Mae'r broses ymgeisio ar gyfer Rownd 2 yn wahanol i'r Rownd Trywydd Cyflym. Caiff y rownd ariannu hon ei chyflwyno drwy broses dau gam a bydd yn arbennig o ddefnyddiol i sefydliadau nad yw eu prosiectau, o bosib, mor ddatblygedig â'r rhai sy'n addas i'w hariannu o dan y rownd Trywydd Cyflym. Bydd gofyn i ymgeiswyr gwblhau cais cam un, ond bydd gofyn iddynt ddatblygu a chyflwyno cais cam dau (cynllun busnes prosiect a chynllun cyflwyno prosiect cyfalaf) dim ond os yw eu cais cam un yn llwyddiannus. Rhagwelwn wahodd rhwng wyth a deuddeg prosiect i symud ymlaen i gam dau, gyda grant Rownd 2 yn cael ei ddyfarnu i rhwng pump a naw o'r rhain. Mae manylion pellach proses ymgeisio Rownd 2 ar dudalen 16.

30 Mawrth 2010	Mae Rownd 2 y rhaglen CAT yn agor.
30 Mehefin 2010	Terfyn amser ar gyfer ceisiadau cam un.
Yn ystod mis Tachwedd 2010	Penderfyniad ynghylch ceisiadau cam un. Prosiectau'n cael eu gwahodd i symud ymlaen i gam dau.
Erbyn canol dydd, 20 Mai 2011	Terfyn amser ar gyfer ceisiadau cam dau.
Yn ystod mis Hydref 2011	Bydd Pwyllgor y Rhaglen CAT yn cwrdd, ac yn penderfynu ar y prosiectau a fydd yn cael eu hariannu.

Mae'r nodiadau arweiniad hyn yn berthnasol i Rownd 2 yn unig.

Rownd 3

Caiff arweiniad a ffurflen gais ar wahân eu cyflwyno ar gyfer Rownd 3 yn ystod hydref 2010.

Nod ac egwyddorion y rhaglen

Nod y rhaglen

Bydd y rhaglen CAT yn ceisio creu cymunedau mwy cynaliadwy drwy gefnogi trosglwyddo asedau i sefydliadau cymunedol mentrus. Byddwn yn gwneud hyn drwy ddatblygu asedau a drosglwyddir o gyrff sector cyhoeddus i sefydliadau mentrus sy'n cynnwys y cymunedau maent yn eu gwasanaethu'n weithredol ac yn darparu buddion iddynt. Mae'n rhaid iddynt weithio tuag at wella'r gwasanaethau a/neu'r cyfleusterau ar gyfer eu cymuned, medru dangos bod eu cynigion yn gynaliadwy yn yr hir dymor ac ystyried effaith **economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol** eu gwaith.

Trwy sefydliadau cymunedol mentrus, golygwn sefydliadau trydydd sector sy'n gwasanaethu eu cymuned o naill ai le neu ddiddordeb. Bydd y sefydliadau hyn yn dangos cynlluniau dichonol sy'n cynnwys **cymysgedd o ariannu i'r dyfodol, gyda phwyslais ar gynhyrchu incwm.**

Egwyddorion y rhaglen

Mae'n rhaid i asedau cymunedol a drosglwyddir drwy raglen CAT fynd i'r afael â materion sy'n ymwneud â **chynaladwyedd economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol** mewn ffordd integredig er mwyn i bobl fwynhau gwell ansawdd bywyd heb gyfaddawdu ansawdd bywyd cenedlaethau'r dyfodol. Er enghraifft:

Economaidd

- Creu cynaladwyedd sefydliadol drwy reolaeth a chynllunio cadarn, datblygu dulliau gwahanol o greu incwm ac ystyried ariannu ar y cyd.
- Creu a chadw cyflogaeth yn y gymuned drwy ehangu'i sylfaen economaidd, a hynny drwy gyflwyno gweithgareddau newydd lle ceir bylchau yn y ddarpariaeth.
- Datblygu cysylltiadau â chyfleoedd hyfforddi, gwirfoddoli neu waith cymunedol.

Cymdeithasol

- Mynd i'r afael ag anghenion a blaenoriaethau lleol drwy wella gwasanaethau ac isadeiledd lleol.
- Creu ymdeimlad o rymuso cymunedol sy'n parhau drwy gyfranogiad cymunedau wrth wneud penderfyniadau am ddylunio, defnyddio a chynnal asedau'n barhaus.
- Annog partneriaethau newydd rhwng sefydliadau sector cyhoeddus a'r cymunedau maent yn eu gwasanaethu.

Amgylcheddol

- Meithrin ymrwymiad i ddylunio o safon a datblygu cynaliadwy sy'n ystyried y defnydd o ynni, gwastraff a thechnoleg amgen.
- Cynyddu'r defnydd a'r ailddefnydd o ddeunyddiau lleol neu ailgylchu wrth ddylunio ac adeiladu asedau.
- Adnewyddu tir a chynefinoedd bywyd gwyllt sydd wedi diraddio er mwyn sicrhau cynaladwyedd ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Canlyniadau

Canlyniadau'r rhaglen

Hoffem wybod am y newidiadau a geir o ganlyniad i'n hariannu. Rydym yn galw'r newidiadau hyn yn 'ganlyniadau'. O dan y rhaglen hon, rydym eisiau ariannu rhaglenni a fydd yn cyflwyno'r canlyniadau canlynol ar gyfer y rhaglen:

1. Adeiladu gallu cymunedau mentrus i ymgymryd ag asedau cymunedol sy'n gallu darparu atebion i'r heriau y maent yn eu hwynebu, a'u datblygu.

2. Cyfrannu at adfywio cymunedau a'u cynaladwyedd economaidd.

3. Hyrwyddo a chryfhau annibyniaeth sefydliadau trydydd sector drwy alluogi menter gymdeithasol.

4. Gwella gwaith partneriaeth rhwng y sector cyhoeddus, y trydydd sector a sectorau eraill.

Byddwn ond yn ariannu prosiectau a fydd yn cyflwyno'r **holl** ganlyniadau bras hyn **ac** sy'n dangos tystiolaeth o gyfranogiad gwirioneddol y gymuned, boed yn ddaearyddol neu'n gymuned buddiant, wrth ddatblygu a dylunio'r prosiect, a'i gynnal yn y dyfodol.

Yn ogystal, byddwn yn ceisio profi a fydd eich cynigion busnes yn cynhyrchu incwm sylweddol er mwyn sicrhau cynaladwyedd economaidd.

Canlyniadau prosiect
Byddwn yn gofyn i chi ddisgrifio **pedwar canlyniad** rydych yn disgwyl i'ch prosiect eu cyflawni. Mae rhan o'n penderfyniad i ddyfarnu grant i chi'n seiliedig ar ein hasesiad o ansawdd canlyniadau eich prosiect. Os byddwn yn dyfarnu grant i chi, bydd canlyniadau eich prosiect yn ffurfio rhan o'n cytundeb grant gyda chi.

Mae'n **rhaid** i ganlyniadau eich prosiect fod yn rhai CAMPUS (cyraeddadwy, amserol, mesuradwy, penodol, uchelgeisiol, synhwyrol), felly bydd angen i chi gynnwys gwybodaeth y gellir ei meintioli yn ogystal â'r hyn a fydd yn newid a phwy fydd yn elwa.

Gyda'i gilydd, mae'n **rhaid** i ganlyniadau eich prosiect fodloni holl ganlyniadau'r rhaglen CAT. Rydym eisiau gwybod sut rydych chi'n meddwl y bydd eich prosiect yn ein helpu i'w cyflawni, ond nid ydym yn disgwyl i chi ysgrifennu canlyniadau eich prosiect yn yr un arddull neu fformat â chanlyniadau'r rhaglen CAT. Ceir enghreifftiau o'r mathau o ganlyniadau y dylai eich prosiect geisio eu cyflawni yn adran 'Enghreifftiau o Brosiectau' y nodiadau arweiniad hyn (atodiad dau).

Rydym hefyd yn argymell eich bod yn darllen ein llyfryn 'Esbonio'r gwahaniaeth y mae eich prosiect yn ei wneud' am gymorth ar ysgrifennu canlyniadau prosiect a chasglu gwybodaeth i ddangos i ba raddau rydych yn eu cyflawni. Gallwch ddod o hyd i hwn ar ein gwefan www.cronfaloterifawr.org.uk.

Enghreifftiau o Brosiectau
Gallwch weld detholiad o'r mathau o brosiectau a allai gael eu hariannu o dan y rhaglen CAT isod:

Canolfan eco-dwristiaeth a gweithgareddau awyr agored
Caiff canolfan eco-dwristiaeth newydd ei hadeiladu ar ymylon coedwig a gaiff ei throsglwyddo i ddwylo ymddiriedolaeth goetir ar brydles 75 mlynedd. Bydd yr ymddiriedolaeth yn defnyddio'r grant a ddyfarnwyd i gymryd y tir drosodd ac ariannu adeiladu'r ganolfan. Nod y prosiect yw annog cadwraeth a defnyddio'r awyr agored fel ffynhonnell gweithgareddau hamdden ac addysgol i bobl o bob cwr o Gymru. Dyma faes o ddiddordeb penodol ar gyfer y sefydliad cenedlaethol hwn y mae ei genhadaeth yw hyrwyddo cadwraeth. Bydd y prosiect hefyd yn hyrwyddo'r cysylltiadau sydd gan y nodau hyn o ran sefydlu economi leol gynaliadwy. Caiff gweithgareddau addysg a thwristiaeth awyr agored eu rhedeg o'r ganolfan, ond wedi'u lleoli o fewn y coetir lleol. Bydd y prosiect yn ceisio dod o hyd i incwm o amrywiaeth o ffynonellau. Mae'r ganolfan ei hun wedi'i dylunio i ddarparu llety i ymwelwyr, cyfleusterau cynadledda ac unedau manwerthu graddfa fach, gan gynnwys caffi i dwristiaid. Ar ben hynny, bydd y coetir yn darparu cyfleoedd ar gyfer diwygio sgiliau hanesyddol sy'n seiliedig ar brysgoedio a hyrwyddo'r defnydd o ffynonellau pren cynaliadwy lleol.

Parc Menter
Bydd y grant yn caniatáu i'r ymgeisydd symud o'i adeilad presennol ac ehangu ei weithrediadau cyfredol yn sylweddol drwy ymgymryd â phrydles hir dymor adeilad am rent rhad. Bydd y grant yn talu am waith adeiladu y mae ei angen i greu unedau a reolir ar y safle, a gaiff ei redeg gan is-gwmni masnachu ar wahân. Bydd yr ymgeisydd yn darparu cymorth busnes ar y safle i fusnesau graddfa fach, ac yn helpu grwpiau difreintiedig lleol i ddod o hyd i gyflogaeth drwy bartneriaethau gyda'r rhai sy'n rhentu lleoedd gweithio.

Prosiect amgylcheddol a busnes amgylcheddol cymunedol
Caiff swm sylweddol o dir a dau adeilad bach eu caffael am ddim ar ôl trosglwyddo rhydd-ddaliad. Bydd y sefydliad cymunedol sy'n caffael yr asedau'n darparu cyfleoedd addysg, hyfforddiant a chyflogaeth sy'n gysylltiedig â'r amgylchedd a busnes amaethyddol. Bydd hyfforddiant yn bosib ar gyfer sgiliau busnes, garddwriaeth, amaeth a rheoli tir er mwyn hyrwyddo cadw sgiliau mewn cymunedau gwledig. Bydd y prosiect yn cynhyrchu incwm cynaliadwy drwy gynlluniau ailgylchu a rheoli gwastraff. Bydd compostio gwastraff gwyrdd o nifer o ffynonellau ac ailgylchu ar raddfa fach yn darparu swyddi lleol ac ar yr un pryd, mae cynlluniau ac arian cyfatebol ar waith ar gyfer adeiladu cynllun gwresogi biomàs newydd a fydd yn datblygu sgiliau'r sefydliad mewn ynni adnewyddadwy.

Mae manylion mwy cynhwysfawr am bob prosiect enghreifftiol yn atodiad dau.

Pwy all ymgeisio am ariannu?

Mae'n hanfodol bod eich prosiect yn bodloni gofynion y rhaglen. Felly, gofynnir i chi ddarllen y rhain yn ofalus i sicrhau bod eich prosiect yn gymwys cyn ymgeisio.

Mae'n rhaid i geisiadau ar gyfer Rownd 2 y rhaglen CAT ddod o bartneriaethau ar draws sectorau sy'n cynnwys o leiaf un partner o'r trydydd sector ac un sefydliad o'r sector cyhoeddus. Mae'n rhaid bod y sefydliadau hyn wedi cydweithio i nodi'r ased, a chytuno ar egwyddorion y trosglwyddiad. Byddwn yn blaenoriaethu prosiectau sydd â phartneriaeth gref eisoes ac sy'n gallu dangos tystiolaeth o waith partneriaeth.

Mae'n rhaid bod gan bob prosiect sefydliad trydydd sector fel y prif ymgeisydd. Dyna'r sefydliad fydd yn gyfrifol am y prosiect a'i ariannu, ac mae'n rhaid i'r ased gael ei drosglwyddo i'r sefydliad hwnnw. **Gellir trosglwyddo asedau o sefydliadau sector cyhoeddus yn unig.**
Er y bydd rhaid i'r asedau gael eu trosglwyddo i un sefydliad arweiniol, nid ydym yn disgwyl mai dyna fydd unig ddefnyddiwr yr ased. Mae'n **rhaid** i'r asedau fod yn hygyrch i grwpiau o fewn y gymuned ehangach.

Byddwn yn gallu ariannu amrywiaeth o sefydliadau trydydd sector gwahanol a all ddod o dan y strwythurau cyfreithiol canlynol:

- cwmnïau buddiant cymunedol (CIC)
- cwmnïau a gyfyngir gan warant
- sefydliadau elusennol corfforedig
- ymddiriedolaethau elusennol
- cymdeithasau diwydiannol a darbodus.

Mae enghreifftiau o'r mathau o sefydliadau sy'n ffitio i'r strwythurau hyn yn cynnwys:

- mentrau cymdeithasol a chwmnïau cymdeithasol
- cwmnïau cydfuddiannol
- ymddiriedolaethau datblygu
- cymdeithasau tai.

Ein prif amcan yw gweld lefelau cynyddol o reolaeth a dylanwad gan y gymuned drwy berchnogaeth gymunedol a datblygu asedau. I'r perwyl hwn, rydym am gefnogi ceisiadau gan sefydliadau arweiniol sy'n gallu dangos y canlynol:

- Maent wedi'u harwain a'u rheoli gan y gymuned drwy gorff a gyfansoddir.
- Mae eu haelodaeth yn agored i aelodau'r gymuned.
- Maent yn cael eu rhedeg gan, ac ar gyfer, pobl o fewn ardal ddaearyddol ddiffiniedig. Fel arfer ni fydd hyn yn fwy nag ardal un awdurdod lleol. Fodd bynnag, os bydd eich sefydliad yn cynrychioli cymuned buddiant, mae'n rhaid i chi ddangos eich bod wedi rhoi ystyriaeth briodol i'r gymuned leol. Mae cymuned buddiant yn grŵp cydweithredol o bobl sy'n rhannu budd, nod, cenhadaeth neu broses fusnes ar y cyd ac felly ni ellir eu diffinio fesul ardal ddaearyddol benodol.

Egwyddor sylfaenol y rhaglen hon yw galluogi perchnogaeth a rheoli asedau gan y gymuned. Gan hynny, mae disgwyl i chi ddangos cynrychiolaeth gref y gymuned ynghyd â'i chyfranogiad wrth wneud penderfyniadau sy'n gysylltiedig â rheoli a defnyddio'r ased. Gall hyn fod drwy gynrychiolaeth ar bwyllgor/fwrdd rheoli'r sefydliad arweiniol, neu drwy bwyllgor rheoli asedau lleol. Caiff lefel y berchnogaeth gymunedol ei phrofi wrth i'ch cais gael ei asesu, a bydd prosiectau sy'n dangos hyn yn glir yn cael eu blaenoriaethu.

Ni fyddwn yn rhoi grant i:

- unigolion neu unig fasnachwyr
- sefydliadau sy'n gwneud elw er budd preifat
- cyrff statudol, gan gynnwys awdurdodau lleol eraill, ysgolion, cynghorau plwyf neu dref
- sefydliadau sy'n ymgeisio ar ran sefydliadau eraill. Mae'n rhaid mai'r sefydliad sy'n ymgeisio am y grant yw'r un sefydliad a fydd yn derbyn y grant ac yn cymryd cyfrifoldeb dros yr ariannu
- sefydliadau y mae eu hiechyd ariannol yn wael
- sefydliadau sydd wedi derbyn grant gan y Gronfa Loteri Fawr nad yw wedi cael ei reoli'n foddhaol

- sefydliadau sydd wedi derbyn grant neu fenthyciad gan Lywodraeth Cynulliad Cymru nad yw wedi cael ei reoli'n foddhaol
- sefydliadau nad yw eu dogfen lywodraethu'n caniatáu perchen ar a/neu reoli'r ased a drosglwyddwyd
- sefydliadau sy'n ymgeisio am grant i ganiatáu trosglwyddo ased o unrhyw sefydliad heblaw sefydliadau sector cyhoeddus.

Gweithgareddau crefyddol a gwleidyddol
Er y byddwn yn ystyried prosiectau lle mae'r ased yn cael ei drosglwyddo i grŵp crefyddol, ni fyddwn yn ariannu gweithgareddau crefyddol. Gan hynny, byddwn yn disgwyl mai prif ddiben yr ased hwnnw fyddai cyflwyno gweithgareddau sydd o fudd i'r gymuned ehangach, ac nid gweithgareddau neu wasanaethau crefyddol. Yn yr un modd, ni ellir defnyddio ariannu i gefnogi prosiectau sy'n darparu lle'n bennaf ar gyfer gweithgareddau gwleidyddol.

Lleoliad
Mae'n **rhaid** i'r prif ymgeisydd, y prosiect a mwyafrif y defnyddwyr fod wedi'u lleoli yng Nghymru. Trwy fwyafrif, golygwn 75 y cant. Rydym hefyd yn disgwyl y bydd y sefydliad sector cyhoeddus sy'n trosglwyddo'r ased wedi'i leoli yng Nghymru. Fodd bynnag, mewn amgylchiadau eithriadol, byddwn yn ystyried trosglwyddo asedau o sefydliadau mewn rhannau eraill o'r DU.

Beth fyddwn yn ei ariannu?

Byddwn yn dyfarnu grantiau hyd at £800,000 y mae'n rhaid iddynt gynnwys cyfuniad o gyfalaf a refeniw. Fel rhan o'ch cyllideb gyfalaf, gallwch gynnwys cais hefyd am arian datblygu i'ch helpu gyda chost datblygu elfen gyfalaf eich prosiect yng ngham dau.

Ni fydd ceisiadau am grantiau cyfalaf neu refeniw yn unig yn gymwys i gael eu hariannu.
Byddwn yn ariannu grantiau hyd at 5 mlynedd.

Yn y rhan fwyaf o achosion, disgwyliwn weld rhan o'ch ariannu'n dod o ffynonellau ariannol eraill, neu drwy gyfraniadau mewn da. Mae hyn yn helpu i ddangos bod y gymuned ehangach yn ymrwymedig i'r cynnig a'i bod yn gallu helpu i'w wneud yn fwy cynaliadwy, gan ei alluogi i barhau ar ôl i'n grant ddod i ben. Fodd bynnag, mewn achosion arbennig o gryf gallwn gyflenwi 100 y cant o gostau eich prosiect.

Trwy'r rhaglen CAT, byddwn yn ariannu trosglwyddo:

- **Adeiladau gyda, neu heb, dir cysylltiedig.**
  Byddwn ond yn derbyn cynigion ar gyfer trosglwyddo a datblygu adeiladau a fydd yn rhai amlddefnydd (h.y. gyda chymysgedd o ddibenion economaidd a chymdeithasol), ac sy'n hygyrch i'r gymuned ehangach. Bydd angen i'r asedau feddu ar y potensial i gynhyrchu incwm er budd cynyddol y gymuned a/neu chwarae rhan ganolog wrth gyflwyno amrywiaeth o wasanaethau allweddol a fydd yn cefnogi bywyd cymunedol.

Neu

- **Tir yn unig:**
  Bydd angen pennu diben terfynol ar gyfer unrhyw dir a drosglwyddir. Gall hyn fod yn gyfle i ddatblygu coedwigaeth a gwarchodfeydd natur, eco-dwristiaeth, cynhyrchu bwyd yn lleol neu gynhyrchu ynni'n lleol.

Yn ogystal â throsglwyddo'r ased, mae arian ar gael i ddatblygu ased sydd eisoes yn bodoli neu adeiladu adeilad newydd. Dylai eich cais ddangos yn glir pa un sydd fwyaf priodol ar gyfer eich prosiect.

Dylai fod yn flaenoriaeth gael ased go iawn sy'n ddichonol yn ariannol yn yr hir dymor y bydd y gymuned yn elwa ohono. Dylid cynllunio datblygiad yr ased yn ofalus i adlewyrchu anghenion y gymuned a fydd yn ei ddefnyddio.

Mae'n **rhaid** i unrhyw waith adeiladu newydd gyrraedd safon ragorol Dull Asesu Amgylcheddol y Sefydliad Ymchwil Adeiladu (BREEAM). Eich sefydliad chi sy'n gyfrifol am ddangos y bydd yr adeilad yn bodloni'r safon hon.

Ni fyddwn yn ariannu:
- Asedau defnydd sengl
- Asedau sydd eisoes wedi'u trosglwyddo i sefydliad trydydd sector

- Gwaith dymchwel ac ailadeiladu sylweddol ar ased oni bai y gellir dangos mai dyna'r opsiwn mwyaf priodol ar gyfer eich ased
- Datblygiadau tai'n unig
- Asedau sy'n eiddo i sefydliadau sector preifat
- Prosiectau sy'n gysylltiedig â chynyddu mynediad i'r anabl yn unig
- Estyniadau o drefniadau prydles tymor byr i drefniadau prydles hir dymor (mae hyn yn eithrio trwyddedau sy'n llai na 12 mis).

Trosglwyddo Rhydd-ddaliad a Phrydles
Byddwn yn cynnig ymagwedd hyblyg at drosglwyddo asedau, gan ganiatáu prynu naill ai rydd-ddaliad neu drosglwyddo prydles fel y bo angen. Fodd bynnag, os ydych am reoli a datblygu ased prydlesol, mae'n rhaid i chi ddangos pam mai dyna'r opsiwn gorau i'r gymuned, gan barhau ar yr un pryd, i gyflawni'r canlyniadau rydym wedi'u disgrifio ar gyfer y rhaglen CAT. Mae copi o'n gofynion prydles ar gyfer y rhaglen CAT ar gael ar ein gwefan. Darllenwch nhw i sicrhau y bydd modd i chi a'r sefydliad sector cyhoeddus eu bodloni.

Er y byddwn yn ystyried cynigion ar gyfer trosglwyddo asedau am werth llawn y farchnad, mae'r rhaglen hon yn ceisio annog trosglwyddiadau ar gyfraddau is. Gan hynny, mae'n rhaid i brosiectau geisio ymgorffori trosglwyddiadau heb dâl neu am gost sy'n sylweddol is na gwerth y farchnad. Bydd prosiectau sy'n gallu dangos hyn yn cael eu blaenoriaethu yn ystod yr asesiad. Fodd bynnag ni chaiff hyn ei asesu ar ei ben ei hun ond yng nghyd-destun cynllun busnes y prosiect cyfan a thystiolaeth o gynaladwyedd economaidd hir dymor.

Ar gyfer trosglwyddiadau prydles, dylid rhoi ystyriaeth i sefydlu trefniadau rhent rhad.

Ariannu cyfalaf
Byddwn yn darparu ariannu cyfalaf tuag at gost caffael a datblygu'r asedau, y bydd ei angen i gyflawni amcan a chanlyniadau'r prosiect. Nid yw arian cyfalaf ar gyfer talu costau sy'n gysylltiedig â rhedeg eich prosiect. Mae'n rhaid i elfen gyfalaf yr arian y gofynnir amdano fod rhwng £250,000 a £500,000. Dylai'r cyfanswm hwn gynnwys eich holl gostau cyfalaf, gan gynnwys unrhyw geisiadau am arian datblygu.

Am beth y bydd costau cyfalaf yn talu?
Mae'r rhestri canlynol yn rhoi syniad o'r math o wariant y gallwn dalu amdano a'r hyn na allwn dalu amdano. Nid rhestr gynhwysfawr yw hon, a phan fyddwn yn asesu eich cais, mae'n bosib y byddwn am drafod hyn yn fanylach, neu gynnwys/eithrio rhai eitemau.

Mae gwariant cyfalaf cymwys yn cynnwys:

- costau datblygu (mae'r arian hwn ar gael i helpu eich prosiect i fodloni gofynion y cynllun cyflwyno prosiect cyfalaf yng ngham dau. Gweler tudalen 11 am fanylion pellach)
- prynu rhydd-ddaliad tir ac adeiladau
- prynu tir ac adeiladau ar brydles (mae'n rhaid bod gan y brydles isafswm cyfnod o 20 mlynedd, heb gymal torri a'i bod yn medru cael ei throsglwyddo i sefydliad trydydd sector tebyg)
- gwaith adeiladau a pheiriannu (adnewyddu, moderneiddio neu drawsnewid gofynnol ar gyfer cyflwyno'r prosiect
- estyniadau fel rhan o brosiect ehangach, lle gallwch ddangos eu bod yn rhan annatod o'ch prosiect
- costau adeiladau newydd
- peirianwaith a chyfarpar sy'n angenrheidiol ar gyfer rhedeg y prosiect
- prynu cyfarpar neu osodiadau a ffitiadau sy'n gysylltiedig â'r tir neu'r adeilad
- ffioedd proffesiynol a chyfreithiol sy'n gysylltiedig ag elfen gyfalaf y prosiect e.e. Eich costau cyfreithiol , megis tystysgrif teitl a phridiant cyfreithiol
    - ceir arweiniad ar lefel y ffioedd y dylech ddarparu ar ei chyfer ar dudalen 19, ond mae'n rhaid i chi ymgynghori â'ch cyfreithwyr eich hun ar gyfer eu cyngor a'u dyfynbris
- swm wrth gefn o tua 10 y cant o gyfanswm

costau cyfalaf y prosiect

- TAW ar wariant cyfalaf cymwys lle bo'n briodol (cysylltwch â'ch swyddfa TAW leol am gyngor).
- mae gwariant cyfalaf nad yw'n gymwys yn cynnwys:
- costau a gafwyd wrth ddatblygu eich cais cam un
- costau a gafwyd neu wariant yr ymrwymwyd iddo cyn i ni ddyfarnu grant cam dau (nad ydynt yn gymwys fel rhan o'r grant datblygu)
- unrhyw gostau y mae rhywun arall yn talu amdanynt, mewn arian neu mewn da
- atgyweiriadau neu gynnal a chadw rheolaidd (er y gellir cynnwys y costau hyn yn y gyllideb refeniw)
- gwelliannau cyffredinol i ardaloedd cyhoeddus oni bai eu bod yn rhan hanfodol o'r prosiect cyffredinol
- cyfarpar personol nad yw'n hanfodol ar gyfer cyflwyno'r prosiect
- cyfarpar cynnal a chadw, cyfarpar sefydlog neu rydd neu gyfarpar swyddfa nad yw'n rhan hanfodol o'r prosiect
- prynu prydles sy'n llai nag 20 mlynedd
- prynu bysiau mini neu ffurfiau eraill ar gludiant.

Pa gostau datblygu fyddwn ni'n eu talu?
Byddwn yn darparu hyd at £35,000 o arian datblygu tuag at gost datblygu elfen gyfalaf eich prosiect. Gall costau datblygu cymwys gynnwys y canlynol:

- Astudiaethau dichonoldeb e.e. adolygiadau o ddichonoldeb y prosiect cyfalaf arfaethedig o safbwynt cost a dylunio; gwiriadau addasrwydd ar dechnolegau carbon isel neu ddi-garbon
- Archwiliadau safle e.e. arolygon y mae eu hangen i fodloni gofynion cynllunio lleol, sicrhau cydymffurfiad â gofynion rheoliadau adeiladu a dileu risgiau o'r prosiect er mwyn cyfeirio dyluniad adeileddol ac esthetig yr adeilad. Gall y rhain fod yn unrhyw un o'r canlynol (heb fod yn rhestr gynhwysfawr); archwiliad o'r pridd, arolwg adeileddol, arolwg cyflwr, arolwg asbestos etc
- Archwiliadau mynediad e.e. arolwg i asesu pa waith y mae ei angen i sicrhau cydymffurfiad â'r Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd a Rhan M y Rheoliadau Adeiladu
- Datblygu'r dyluniad e.e. y costau sy'n gysylltiedig â phenodi tîm y prosiect (Pensaer, Rheolwr Prosiect, Peiriannydd Adeileddol, Cydlynydd CDM etc)
- Unrhyw ganiatâd statudol e.e. costau sy'n gysylltiedig â chyflwyno unrhyw gais, lle bo'n berthnasol, ar gyfer caniatâd cynllunio, caniatâd adeilad rhestredig, caniatâd ardal gadwraeth, caniatâd rheoliadau adeiladu etc
- Cynllunio costau'r prosiect Cyfalaf e.e. costau sy'n gysylltiedig â chomisiynu ymgynghorydd â chymwysterau priodol er mwyn sefydlu cyllideb y prosiect, monitro a diweddaru hyd at gyflwyno'r Cynllun Cyflwyno Cyfalaf
- Caffael a chynllun rheoli'r prosiect cyfalaf e.e. costau sy'n gysylltiedig â chomisiynu ymgynghorydd arweiniol y prosiect er mwyn datblygu cynllun rheoli prosiect a fydd yn sefydlu strategaethau cyfalaf allweddol y prosiect a gweithdrefnau rheoli, gyda'r nod o reoli'r prosiect cyfalaf yn effeithiol.

Os oes angen arian datblygu arnoch, dylech gynnwys y costau hyn yn eich cyllideb gyfalaf. Byddwn yn

defnyddio'r wybodaeth rydych yn ei rhoi i ni yn eich cais cam un i benderfynu a fyddwn yn dyfarnu grant datblygu i chi ac ar ba lefel ariannu. **Cofiwch nad yw costau datblygu'n gostau ychwanegol ac y dylent ffurfio rhan o'r cyfanswm grant y gofynnir amdano.**

Arian refeniw
Byddwn yn darparu arian refeniw tuag at gostau gweithredu eich prosiect. Mae'n rhaid i elfen refeniw yr ariannu y gofynnir amdano fod rhwng £50,000 a £300,000. Gall yr arian refeniw gynnwys eich costau cyffredinol.

Byddwn hefyd yn cefnogi amrywiaeth o gostau refeniw y mae eu hangen er mwyn rhedeg eich prosiect. Mae'n bosib hefyd y byddwch eisiau ystyried gwaith cynllunio neu ddatblygu i sicrhau cynaladwyedd hir dymor y cyfleuster. Gall hyn gynnwys gwaith i godi proffil y prosiect, adeiladu cysylltiadau gyda'r gymuned leol a budd-ddeiliaid eraill.

Pa gostau refeniw byddwn ni'n talu amdanynt?
Mae'r rhestri canlynol yn rhoi syniad o'r math o wariant y gallwn dalu amdano a'r hyn na allwn dalu amdano. Nid rhestr gynhwysfawr yw hon, a phan fyddwn yn asesu eich cais, mae'n bosib y byddwn am drafod hyn yn fanylach, neu gynnwys/eithrio rhai eitemau.

Mae gwariant refeniw cymwys yn cynnwys:

- cyflogau staff sy'n berthnasol i'ch prosiect e.e. rheolwr prosiect, rheolwr cyfleusterau, gan gynnwys unrhyw gostau ychwanegol megis pensiynau ac Yswiriant Cenedlaethol ar gyfer y prosiect
- cyflogau staff rheoli sydd ond yn goruchwylio staff y prosiect, gan gynnwys unrhyw gostau ychwanegol megis pensiynau ac Yswiriant Cenedlaethol ar gyfer y prosiect
- recriwtio staff a fydd yn gweithio ar y prosiect
- treuliau staff a gwirfoddolwyr y prosiect, gan gynnwys teithio, llety, biliau ffôn a deunyddiau swyddfa
- rhent, gwres, golau ac yswiriant ar gyfer swyddfeydd ac adeiladau a ddefnyddir ar gyfer y prosiect hwn yn unig
- cynnal a chadw adeiladau (e.e. glanhau, atgyweirio rheolaidd etc)
- hyfforddi staff a gwirfoddolwyr sy'n gweithio ar y prosiect
- monitro a gwerthuso'r prosiect
- codi arian ar gyfer parhau â'r prosiect ar ôl i'n grant ddod i ben
- marchnata a chyhoeddusrwydd ar gyfer y prosiect
- costau cyfieithu
- isadeiledd gwefan, gan gynnwys lle mewn gweinydd canolog a chostau rhyng-gysylltu
- meddalwedd
- dylunio a datblygu cynnwys gwefannau (gan gynnwys defnyddio ymgynghorwyr neu ddylunwyr
- ffioedd proffesiynol a chyfreithiol sy'n gysylltiedig â gwariant refeniw ar y prosiect, er enghraifft, barn gyfreithiol gan eich cyfreithiwr
- teithio a chludiant
- costau cyffredinol.

Mae gwariant refeniw nad yw'n gymwys yn cynnwys:

- costau neu wariant a ymrwymwyd cyn i ni ddyfarnu'r grant hwn i chi
- unrhyw gostau y mae rhywun arall yn talu amdanynt, mewn arian neu mewn da
- eitemau sydd o fudd i unigolyn yn unig nad oes eu hangen i gyflwyno canlyniadau'r prosiect
- teithio y tu allan i'r DU
- arian uniongyrchol ar gyfer cronni arian wrth gefn neu warged, p'un ai i'w ddosbarthu neu beidio
- benthyciadau neu ad-daliadau benthyciadau
- cyfraniadau at apeliadau cyffredinol.

Pa gostau cyffredinol byddwn yn talu amdanynt?
Trwy gostau cyffredinol, golygwn gost gweithwyr, gwirfoddolwyr, cyfarpar, lle a gwasanaethau sy'n cefnogi'n rhannol y prosiect rydych am i ni ei ariannu, ond sydd hefyd yn cefnogi eich gwaith arall.

Mae'n bosib y byddwn yn gwneud cyfraniad tuag at eich costau cyffredinol. Dylech gyfrifo faint o gefnogaeth y bydd ei hangen ar y prosiect rydym am i ni ei ariannu gan y bobl, y cyfarpar a'r lleoedd sy'n ffurfio eich costau cyffredinol. Cyfrifwch gost y gefnogaeth hon a'i rhannu wedyn gan ganran y costau refeniw a chyfalaf cymwys rydym yn gofyn i ni eu hariannu. Yn y cais, mae'n ofynnol i chi esbonio sut rydych wedi cyfrifo hyn. Cyfeirir at hyn hefyd fel 'adennill costau llawn'.

Ceir mwy o arweiniad ar hyn ar ein gwefan:

http://www.biglotteryfund.org.uk/fcr_applicants.pdf

Mae costau cyffredinol cymwys yn cynnwys:

- cyflogau staff adnoddau dynol, cyllid, TG a staff eraill sy'n cefnogi'r prosiect (er enghraifft, staff sy'n cynnal y gyflogres, gwasanaethu cyfrifiaduron a ddefnyddir gan y prosiect
- cyflogau staff sy'n gweithio ar y prosiect gan gynnwys rheolwyr, ond heb fod yn gyfyngedig iddynt
- cyflogau uwch reolwyr sy'n goruchwylio'r prosiect
- cyfarfodydd yr ymddiriedolwyr neu'r pwyllgor rheoli
- ffioedd archwilio a ffioedd cyfreithiol eraill sy'n gysylltiedig â rhedeg eich sefydliad
- rhent, gwres, golau ac yswiriant ar gyfer swyddfeydd y mae eu hangen ar eich prosiect neu a rennir gyda phrosiectau eraill
- rhent, gwres, golau ac yswiriant ar gyfer swyddfeydd a ddefnyddir gan staff sy'n rhedeg eich prosiect
- ffioedd proffesiynol sy'n gysylltiedig â chynllunio strategol
- codi arian ar gyfer y sefydliad
- hyfforddi staff
- rhwydweithio a mynd i gynadleddau, neu waith partneriaeth sydd o fudd i'r prosiect rydych eisiau i ni ei ariannu.

Mae costau cyffredinol anghymwys yn cynnwys:

- costau neu wariant yr ymrwymwyd iddynt cyn i ni ddyfarnu'r grant hwn i chi
- unrhyw gostau y mae rhywun arall yn talu amdanynt, mewn arian neu mewn da.

TAW
Gall fod angen i chi dalu TAW ar bethau rydych yn eu prynu fel rhan o'ch prosiect. Gan nad ydym yn gallu ychwanegu TAW at grantiau ar ôl iddynt gael eu dyfarnu, mae'n bwysig eich bod yn gwybod p'un a all eich sefydliad hawlio TAW yn ôl gan Gyllid a Thollau EM neu beidio. Mae'n rhaid i chi gynnwys TAW yn y swm rydych yn gofyn amdano gennym dim ond os na allwch ei hawlio'n ôl o Gyllid a Thollau EM. Fe'ch anogir i gysylltu â Chyllid a Thollau EM i drafod eich achos. Mae eu llinell gymorth ar agor rhwng 8am a 8pm, dydd Llun i ddydd Gwener, 0845 010 9000, a'u gwefan yw www.hmrc.gov.uk

Rhan dau

Ymgeisio i'r rhaglen Trosglwyddo Asedau Cymunedol am ariannu

Mae'r adran hon yn rhoi manylion y broses ymgeisio, gan gynnwys yr amserlen ar gyfer rownd 2 y rhaglen CAT.

Amserlen y rhaglen

Gweler y siart llif isod ar gyfer amserlen Rownd 2. Ceir manylion pellach y broses ymgeisio ar dudalen 20. Mae'n bosib y bydd y dyddiadau'n newid oherwydd amgylchiadau nas rhagwelir. Os bydd y newidiadau'n effeithio ar eich cais, byddwn yn rhoi'r dyddiadau diwygiedig i chi.

beth fyddwch chi'n ei wneud **beth fyddwn ni'n ei wneud**

Amserlen Rownd 2, Cam Un

30 Mawrth 2010. Mae Rownd 2 y rhaglen CAT yn agor. Os oes gennych ddiddordeb mewn ymgeisio, cysylltwch â ni i gofrestru eich diddordeb a gofyn am ffurflen ymgeisio. **Bydd ffurflenni ymgeisio ar gael ar gais yn unig ac ni fyddant yn cael eu rhoi ar ein gwefan.**

↓

Erbyn 12 ganol dydd ar 30 Mehefin 2010. Bydd angen i chi gwblhau ac anfon eich cais cam un atom gyda chynllun busnes diweddaraf eich sefydliad.

↓

O fewn 10 niwrnod gwaith ar ôl i ni dderbyn eich cais byddwn yn cydnabod ein bod wedi'i dderbyn.

↓

O 14 Gorffennaf tan 14 Hydref 2010. Byddwn yn gwirio a yw eich prosiect yn gymwys i ymgeisio ac os ydyw, byddwn yn asesu eich cais cam un. Mae'n bosib y byddwn yn cysylltu â chi yn ystod y broses hon.

↓

Yn ystod mis Tachwedd 2010. Mae Pwyllgor y Rhaglen CAT yn cwrdd ac yn penderfynu ar y prosiectau a all symud ymlaen i gam dau.

↓

Yn ystod mis Tachwedd 2010. Byddwn yn eich hysbysu am y penderfyniad a wnaed ynglŷn â'ch cais. Os ydych yn aflwyddiannus, byddwn yn anfon llythyr atoch yn rhoi rhesymau pam na ariannwyd eich prosiect Os ydych yn llwyddiannus fe gewch eich gwahodd i symud ymlaen i gam dau.

beth fyddwch chi'n ei wneud beth fyddwn ni'n ei wneud

Amserlen Rownd 2, Cam Dau

Yn ystod mis Tachwedd 2010. Caiff prosiectau eu gwahodd i symud ymlaen at gam dau

Arian Datblygu'n cael ei ddyfarnu.
Os dyfernir arian datblygu, byddwn yn cynnig grant datblygu i chi. Ar ôl i'r cytundeb grant gael ei lofnodi a'i ddychwelyd, byddwn yn anfon pecyn ymgeisio cam dau i chi

Arian Datblygu heb ei ddyfarnu.
Caiff pecynnau ymgeisio cam dau eu hanfon gyda'r gwahoddiad i symud ymlaen.

Rhwng Rhagfyr 2010 a Mai 2011. Datblygu ceisiadau cam dau. Os dyfarnwyd grant datblygu i chi, gallwch dynnu eich taliadau grant i lawr yn ystod y cyfnod hwn i'ch helpu i ddatblygu eich cynllun cyflwyno cyfalaf cam dau.

Erbyn canol dydd, 20 Mai 2011. Mae'n rhaid eich bod wedi cwblhau eich gwaith datblygu ac anfon eich cais cam dau atom (cynllun prosiect a chynllun cyflwyno prosiect cyfalaf).

O fewn 10 niwrnod gwaith. ar ôl i ni dderbyn eich ceisiadau byddwn yn cydnabod ein bod wedi'u derbyn.

Rhwng 20 Mai ac 8 Medi 2011. Rydym yn asesu eich cais cam dau. Mae'n bosib y byddwn yn cysylltu â chi yn ystod y broses hon.

Yn ystod mis Hydref 2011. Bydd Pwyllgor y Rhaglen CAT yn cwrdd, ac yn penderfynu ar y prosiectau a fydd yn cael eu hariannu.

Yn ystod mis Hydref 2011. Byddwn yn eich hysbysu am y penderfyniad a wnaed ynglŷn â'ch prosiect. Os ydych yn aflwyddiannus, byddwn yn anfon llythyr atoch yn rhoi rhesymau pam na ariannwyd eich prosiect.

O fewn 6 mis ar ôl dyddiad derbyn eich grant. Os dyfernir grant i chi, mae'n rhaid eich bod wedi dechrau ar y safle. Trwy 'ddechrau ar y safle', golygwn y dyddiad y bydd y contractwr a gaffaelwyd ar gyfer y gwaith adnewyddu, estyn neu adeiladu newydd yn cychwyn sefydlu'r safle'n unol â rhaglen adeiladu'r contractwr, gan symud y gwaith ymlaen yn rheolaidd ac yn ddiwyd yn unol â'r rhaglen honno.

Amserlen Rownd 3

Bydd Rownd 3 y rhaglen CAT yn agor yn ystod hydref 2010. Bydd y rownd yn cau i geisiadau erbyn gwanwyn 2011, gyda phenderfyniadau Cam Un yn cael eu gwneud yn hydref 2011 a phenderfyniadau Cam Dau yng ngwanwyn 2012.

Y broses ymgeisio

Bydd Rownd 2 y Rhaglen CAT yn broses gystadleuol gyda swm cyfyngedig o arian ar gael. Caiff arian ei gyflwyno fel rhan o broses dau gam. Bydd gofyn i chi gwblhau cais cam un, ond bydd gofyn i chi ddatblygu a chyflwyno cais cam dau dim ond os yw eich cais cam un yn llwyddiannus.

Ar ôl darllen y nodiadau arweiniad hyn yn drwyadl, os credwch fod eich prosiect yn gymwys ac y gallai fod yr hyn rydym yn chwilio amdano, cysylltwch â ni yn cat@cronfaloterifawr.org.uk i gofrestru eich diddordeb yn y rhaglen a gofyn am ffurflen ymgeisio cam un. Bydd ffurflenni ymgeisio ar gael ar gais yn unig ac ni fyddant yn cael eu rhoi ar ein gwefan.

Faint o geisiadau gellir eu cyflwyno?
Gallwch gyflwyno un cais yn unig yn ystod pob rownd o'r rhaglen CAT. Os buoch yn llwyddiannus yn rownd flaenorol y rhaglen, mae'n bosib o hyd i chi gyflwyno cais ar gyfer prosiect gwahanol yn Rownd 2.

Cam Un

Fel rhan o gam un, mae'n ofynnol i chi gwblhau ffurflen ymgeisio sy'n rhoi gwybodaeth i ni am eich prosiect. Ar ben hynny bydd yn ofynnol i chi anfon y dogfennau canlynol ar wahân atom.

- dogfennau llywodraethu
- cyfrifon blynyddol diweddaraf
- unrhyw ddogfennaeth banc neu gymdeithas adeiladu ofynnol
- rhaglen y prosiect ar ffurf Siart Gantt (os yw'n berthnasol)
- tystiolaeth gan y sefydliad sector cyhoeddus yn cadarnhau ei ymrwymiad i drosglwyddo'r ased
- arfarniad opsiynau
- tystiolaeth o werth yr ased ar y farchnad
- cynllun busnes diweddaraf eich sefydliad.

Gall cynllun busnes eich sefydliad fod yn ei fformat ei hun, ond dylai disgrifio'ch busnes, ei amcanion, ei strategaethau, y farchnad y mae'n gweithredu ynddi a'i ragamcanion ariannol. Mae'n bosib nad yw, o reidrwydd, yn cynnwys cyfeiriadau i'r prosiect rydych yn ceisio arian gan y rhaglen CAT ar ei gyfer. Byddwn yn adolygu eich cynllun busnes er mwyn ein helpu i asesu parodrwydd a gallu eich sefydliad i gymryd ased drosodd. Ni ddylid drysu rhyngddo a chynllun eich prosiect, sydd i'w gyflwyno yn ystod cam dau ac sy'n canolbwyntio ar y prosiect rydych yn ceisio arian gan y rhaglen CAT ar ei gyfer.

Peidiwch ag anfon unrhyw ddeunyddiau ar wahân i'r hyn rydym wedi gofyn amdano gan na fyddwn yn eu defnyddio yn ein hasesiad. Os bydd angen unrhyw wybodaeth bellach arnom, byddwn yn gofyn amdani.

Terfyn amser ar gyfer cam un
Mae'n rhaid cyflwyno eich cais cam un wedi'i gwblhau erbyn **12 ganol dydd ar 30 Mehefin 2010** fan bellaf. Gallwch ei anfon i cat@cronfaloterifawr.org.uk neu'r cyfeiriad isod:

Rhaglen Trosglwyddo Asedau Cymunedol
Rownd 2
Cronfa Loteri Fawr
6ed Llawr
1 Ffordd y Brenin
Caerdydd
CF10 3JN.

Rydym yn croesawu fformatau eraill pan geir anghenion cyfathrebu penodol. Gofynnir i chi drafod hyn gyda ni os credwch fod hyn yn berthnasol i chi.

Beth fyddwn yn ei wneud gyda cheisiadau cam un ar ôl i ni eu derbyn?
Pan fyddwn yn derbyn eich cais, byddwn yn gwirio eich bod wedi anfon popeth rydym wedi gofyn amdano. Os nad ydych, byddwn yn ysgrifennu atoch ac yn rhoi 10 niwrnod gwaith o ddyddiad y llythyr i chi anfon unrhyw wybodaeth sydd ar goll atom. Os nad ydych yn cwrdd â'r terfyn amser hwn, ni fyddwn yn asesu eich cais.

Ar ôl i ni dderbyn cais cyflawn, byddwn yn ystyried yr wybodaeth rydych wedi'i darparu i sicrhau bod eich sefydliad a'ch prosiect yn cyfateb i arweiniad a gofynion ein rhaglen. Os nad ydynt, mae'n bosib y byddwn yn gwrthod eich cais.

Os ceir gormod o geisiadau i'r rhaglen, mae'n bosib y caiff ymarfer sgorio cychwynnol ei gyflawni yn sgil y gwiriad cyfanrwydd a chymhwyster. Caiff ceisiadau eu sgorio'n rhifiadol a'u graddio ar sail yr hyn sy'n creu prosiect da yn ein barn ni a'r hyn sy'n cyflawni blaenoriaethau'r rhaglen orau. Dim ond y ceisiadau

cryfach fydd yn symud ymlaen i'r asesiad llawn.

Os yw eich cais yn gyflawn, yn gymwys i gael ei ariannu o dan y rhaglen hon ac yn pasio ein system sgorio gychwynnol (os yw'n berthnasol), byddwn yn cyflawni asesiad manwl o'ch prosiect ac yn graddio eich cais yn erbyn y meini prawf canlynol gan ddefnyddio'r wybodaeth a ddarperir yn eich ffurflen ymgeisio.

1. Mae canlyniadau arfaethedig y prosiect yn diwallu angen a nodwyd ac yn helpu i gyflawni canlyniadau'r rhaglen.
2. Gall y sefydliad gyflwyno'r prosiect yn dda a chyflawni canlyniadau arfaethedig y prosiect.

Yn ogystal â'r ddau faen prawf hwn, byddwn yn ceisio profi a fydd eich cynigion busnes yn cynhyrchu incwm sylweddol i sicrhau cynaladwyedd economaidd.

Os ydych wedi gofyn am gostau datblygu, byddwn hefyd yn adolygu'r rhain yn ystod yr asesiad i sicrhau eu bod yn berthnasol ac yn rhesymol. Fel rhan o adolygu eich cais, mae'n bosib y byddwn yn ymweld â chi i drafod yr wybodaeth rydych wedi'i darparu gyda chi a'ch tîm proffesiynol. Mae'n bosib hefyd y byddwn yn defnyddio ymgynghorwyr technegol i'n helpu gyda'r adolygiad hwn.

Bydd angen i chi ddarparu person cyswllt i ni siarad ag ef/hi. Mae'n rhaid iddo/iddi fedru siarad am y prosiect a darparu gwybodaeth bellach os bydd ei hangen, er enghraifft, dadansoddiad mwy manwl o'r gyllideb.

Fel arfer bydd yn cymryd hyd at dri mis i ni asesu eich cais. Os bydd yn cymryd mwy o amser, byddwn yn rhoi gwybod i chi am y graddfeydd amser newydd.

Os bydd eich prosiect yn bodloni ein meini prawf, caiff eich cais ei gyflwyno i Bwyllgor y Rhaglen CAT am benderfyniad.

Byddwn yn ysgrifennu atoch gyda'n penderfyniad yn ystod mis **Tachwedd 2010** gan ddweud wrthych a ydych wedi cael eich gwahodd i symud ymlaen at gam dau neu beidio. Os ydym wedi cytuno ar eich costau datblygu, byddwn yn cynnig grant datblygu i chi.

Rhagwelwn wahodd rhwng wyth a deuddeg prosiect i symud ymlaen i gam dau. Os byddwn yn penderfynu peidio ag ariannu eich cais, byddwn yn rhoi'r rhesymau dros y penderfyniad hwnnw i chi.

Rydym yn disgwyl y byddwn yn derbyn mwy o geisiadau am brosiectau da nag y bydd modd i ni eu cefnogi, ac mae ein penderfyniadau grantiau ariannu wedi'u gwneud yn ôl ein disgresiwn ein hunain. Os byddwn yn penderfynu peidio â chefnogi eich cais, nid yw'n golygu nad ydym yn gwerthfawrogi'r gwaith rydych yn ei wneud.

Cam Dau

Os byddwn yn penderfynu eich gwahodd i gam dau, bydd angen i chi ddarparu mwy o fanylion am eich prosiect. Ar gyfer eich cais cam dau, bydd gofyn i chi gwblhau **cynllun prosiect a chynllun cyflwyno prosiect cyfalaf.**

Os dyfarnwyd grant datblygu i chi, bydd gofyn i chi lofnodi a dychwelyd y cytundeb grant cyn i ni anfon y pecyn ymgeisio cam dau atoch. Ar ôl i holl drefniadau ffurfiol y grant gael eu cytuno, bydd yr arian datblygu ar gael i chi ei dynnu i lawr. Dylech ddefnyddio'r arian hwn i'ch helpu i gyflawni gofynion cyfalaf eich cais cam dau.

Byddwn yn gwahodd mwy o brosiectau i symud ymlaen i gam dau nag y gallwn eu hariannu. Felly bydd y broses yn parhau'n un gystadleuol ac os caiff eich gwahodd i gyflwyno cais cam dau , nid yw'n gwarantu y byddwn yn ariannu eich prosiect. Os nad ydych yn llwyddiannus yng ngham dau ond rydych wedi derbyn arian datblygu, ni fydd rhaid i chi ad-dalu hwn.

Terfyn amser ar gyfer cam dau

Mae'n rhaid cyflwyno eich cais cam dau wedi'i gwblhau erbyn **12 ganol dydd ar 20 Mai 2011** fan bellaf. Gallwch ei anfon i cat@cronfaloterifawr.org.uk neu'r cyfeiriad isod:

Rhaglen Trosglwyddo Asedau Cymunedol
Rownd 2
Cronfa Loteri Fawr
6ed Llawr
1 Ffordd y Brenin
Caerdydd
CF10 3JN.

Beth fyddwn yn ei wneud gyda cheisiadau cam dau ar ôl i ni eu derbyn?
Pan fyddwn yn derbyn eich cais, byddwn yn gwirio eich bod wedi anfon popeth rydym wedi gofyn amdano. Os nad ydych, byddwn yn ysgrifennu atoch ac yn rhoi 10 niwrnod gwaith o ddyddiad y llythyr i chi anfon unrhyw wybodaeth sydd ar goll atom. Os nad ydych yn cwrdd â'r terfyn amser hwn, ni fyddwn yn asesu eich cais.

Ar ôl i ni dderbyn cynllun prosiect wedi'i gwblhau, byddwn yn ystyried yr wybodaeth rydych wedi'i darparu i sicrhau bod eich sefydliad a'ch prosiect yn cyfateb i arweiniad a gofynion ein rhaglen. Os nad ydynt, mae'n bosib y byddwn yn gwrthod eich cais

Byddwn yn asesu eich cais cam dau ac mae'n bosib y byddwn yn cysylltu â chi eto i drafod eich cynnig yn fanwl. Yn ystod y broses hon byddwn yn cyflawni adolygiad manwl o'ch cynllun busnes a'ch cynllun cyflwyno prosiect cyfalaf. Fel rhan o'r adolygiad hwn, mae'n bosib y byddwn yn ymweld â chi i drafod yr wybodaeth rydych wedi'i darparu gyda chi a'ch tîm proffesiynol. Byddwn yn defnyddio ymgynghorwyr technegol i'n helpu gyda'r adolygiad hwn.

Os bydd eich prosiect yn bodloni ein meini prawf, caiff eich cais ei gyflwyno i Bwyllgor y Rhaglen CAT am benderfyniad. Byddwn yn ysgrifennu atoch gyda'n penderfyniad yn ystod mis **Hydref 2011**. Rhagwelwn ddyfarnu grantiau i rhwng pump a naw o brosiectau o dan Rownd 2. Os byddwn yn penderfynu peidio ag ariannu eich cais, byddwn yn rhoi'r rhesymau dros y penderfyniad hwnnw i chi.

Beth fydd yn digwydd os dyfernir grant i chi

Os dyfernir grant i chi, bydd rhaid i chi dderbyn ein hamodau a thelerau safonol. Chi fydd yn atebol am y grant. Mae hyn yn golygu, er y byddwch, o bosib, yn is-gontractio rhan o'r gwaith, y byddwch yn gyfrifol am sicrhau bod y prosiect yn cael ei gyflwyno, bod canlyniadau'r prosiect yn cael eu cyflawni o fewn y graddfeydd amser a'r gyllideb gytunedig, ac yn unol â'r amodau a'r telerau. **Mae copi o amodau a thelerau safonol y rhaglen CAT ar gael ar ein gwefan. Darllenwch nhw i sicrhau y byddwch yn gallu eu derbyn.**

Ar ôl i chi dderbyn y cynnig grant yn ffurfiol, byddwn yn anfon pecyn arweiniad ôl-ddyfarnu atoch sy'n esbonio ffurfioldebau ein grant.

Os ydych wedi sicrhau ariannu gan ffynonellau eraill ar gyfer elfen gyfalaf eich prosiect, bydd yn ofynnol i ni gael cadarnhad ysgrifenedig o hyn cyn i ni ryddhau eich grant.

Gofynion Cyfreithiol

Os byddwn yn dyfarnu grant cyfalaf i chi, byddwn yn amlinellu'r amserlen ar gyfer bodloni amodau a thelerau penodol grantiau yn ein llythyr cynnig grant. Byddwn yn anfon llythyr sy'n amlinellu'r dogfennau cyfreithiol y bydd angen i chi eu rhoi i'ch cyfreithiwr cyn gynted â phosib. Byddwn hefyd yn nodi'r amserlen ar gyfer dechrau ar y gwaith adeiladu.

Tystysgrif Teitl

Os dyfernir grant i chi, bydd angen i chi ddarparu tystysgrif teitl wedi'u chwblhau gan eich cyfreithiwr cyn i ni fedru gwneud taliadau cyfalaf. Mae'n rhaid i chi ddarparu'r dystysgrif teitl yn y ffurflen safonol y mae ei hangen arnom, sydd ar gael ar gais. Mae'n rhaid i'r dystysgrif teitl gael ei llofnodi gan eich cyfreithiwr, a fydd yn gweithredu o dan ddyletswydd gofal i ni, a bydd yn cadarnhau:

- natur y teitl
- bod yr holl chwiliadau perthnasol wedi'u gwneud ac na ddaethpwyd o hyd i unrhyw gofnodion andwyol; a
- bod y teitl yn dda ac yn addas ar gyfer y farchnad, heb unrhyw hawddfreintiau, cyfamodau neu brydlesi cyfyngol, ac yn achos prydlesi, heb unrhyw doriad neu ddarpariaethau fforffedu a fyddai'n atal y prosiect rhag cael ei gyflwyno'n gyflawn ac yn barhaus drwy gydol cyfnod y cytundeb grant.

Dylech wneud darpariaethau o fewn costau eich prosiect ar gyfer eich ffioedd cyfreithiol i ddarparu'r dystysgrif teitl. Fel enghraifft yn unig, credwn ei fod yn rhesymol cynnwys amcangyfrif o hyd at £500 plws TAW. Bydd eich cyfreithiwr yn eich hysbysu am gost darparu tystysgrif teitl, a ddylai gynnwys

y ffioedd chwilio a ffioedd y gofrestrfa tir a thŷ'r cwmnïau.

Ein Gofynion Sicrwydd
Pan fyddwn yn dyfarnu grant cyfalaf ar gyfer prosiect sy'n ymwneud â thir ac adeiladau, mae'n rhaid i ni sicrhau y bydd yr asedau cyfalaf yn cael eu defnyddio at ddibenion y grant dros y cyfnod monitro asedau, sef 20 mlynedd. Mae hyn yn golygu ei fod yn ofynnol i chi wneud ymrwymiadau cyfreithiol i ni at ddiben sicrhau'r grant.

Os dyfernir grant cyfalaf i chi, bydd angen i chi ddarparu pridiant cyfreithiol dros y tir a'r adeiladau cyn i ni fedru gwneud unrhyw daliadau. Bydd hyn ar y ffurf safonol rydym yn gofyn amdani. Bydd y pridiant cyfreithiol yn aros mewn grym am 20 mlynedd.

Dylech wneud darpariaethau o fewn costau eich prosiect ar gyfer eich ffioedd cyfreithiol i ddarparu'r pridiant. Bydd eich cyfreithiwr yn eich hysbysu am y gost. Fel enghraifft yn unig, credwn ei fod yn rhesymol cynnwys amcangyfrif o hyd at £1000 plws TAW.

Barn gyfreithiol
Os byddwn yn dyfarnu grant cyfalaf i chi, bydd gofyn i chi ddarparu barn gyfreithiol gan eich cyfreithiwr cyn i ni fedru gwneud taliadau cyfalaf.

Mae'n rhaid darparu'r farn gyfreithiol ar y ffurf safonol rydym yn gofyn amdani, wedi'i llofnodi gan eich cyfreithiwr, a fydd yn gweithredu o dan ddyletswydd gofal i ni. Bydd y farn gyfreithiol yn cadarnhau bod gan eich sefydliad y pwerau o dan ei ddogfen lywodraethu at ddibenion y prosiect ac i lofnodi'r dogfennau cyfreithiol sy'n gysylltiedig â'ch grant.

Dylech wneud darpariaethau o fewn costau eich prosiect ar gyfer eich ffioedd cyfreithiol wrth ddarparu'r farn gyfreithiol. Fel enghraifft yn unig, credwn ei fod yn rhesymol cynnwys amcangyfrif o hyd at £500 plws TAW. Dylech geisio cyngor gan eich cyfreithiwr ynglŷn â chost darparu barn gyfreithiol.

Prynu tir ac adeiladau
Cyn i ni fedru gwneud taliad ar gyfer prynu'r tir, bydd angen hefyd i chi anfon llythyr gan eich Cyfreithiwr neu Drosglwyddwr Trwyddedig atom, yn gofyn i ni dalu'r grant i gyfrif cleientiaid y cyfreithiwr ar orchymyn cyn cwblhau. Dylai'r llythyr hwn ddisgrifio'n fras y gweithrediad, amcangyfrif o'r dyddiad cyfnewid contractau, y dyddiad y disgwylir y byddwn yn talu'r cyfreithwyr a chadarnhad eu bod yn gweithredu ar ran eich sefydliad.

Asedau cyfalaf
Ni allwch werthu, trosglwyddo. prydlesu neu fel arall, gwaredu tir ac adeiladau a brynwyd, a adeiladwyd, a estynnwyd, a adnewyddwyd, a newidiwyd a/neu a wellwyd gyda'n grant heb gael caniatâd ysgrifenedig gennym. Mae is-osod er mwyn cynhyrchu incwm yn dderbyniol o dan y rhaglen CAT.

Ni allwch newid diben defnyddio'r asedau cyfalaf heb gael caniatâd ysgrifenedig gennym. O'n safbwynt ni, chi fydd yn gyfrifol am y cyflwr a'r defnydd o'r tir a'r adeiladau dros y cyfnod monitro asedau, sef 20 mlynedd. Mae'r cyfnod monitro asedau'n dechrau o ddyddiad y cytundeb grant.

Yswiriant
Chi fydd yn gyfrifol am sicrhau bod gennych yswiriant priodol pan fydd unrhyw waith cyfalaf yn mynd yn ei flaen. Mae'n rhaid i chi sicrhau hefyd bod gennych yswiriant priodol ar gyfer cyfnod llawn ein grant a'r tu hwnt. Gallwn ofyn i chi ddarparu tystiolaeth o yswiriant fel rhan o'n gwiriadau monitro.

Cymorth gwladol
Mae ariannu cyhoeddus ar gyfer sefydliadau sy'n cyflawni gweithgareddau masnachol, hyd yn oed y rhai sydd â statws elusennol, wedi'i reoli gan reolau 'cymorth gwladol' y Comisiwn Ewropeaidd. Wrth ddatblygu eich cais, mae'n bwysig eich bod yn ystyried ac, os bydd angen, ceisio cyngor ynghylch rheoliadau cymorth gwladol. Ar ben hynny, os credwn nad yw lefel y grant y gofynnir amdano'n cyfateb i reolau cymorth gwladol pan fyddwn yn asesu eich cais, byddwn yn cysylltu â chi am fwy o wybodaeth ynglŷn â'ch cynlluniau ac i drafod ein pryderon.

Mae mwy o wybodaeth am gymorth gwladol ar gael ar wefan Llywodraeth Cynulliad Cymru: http://wales.gov.uk/topics/businessandeconomy/stateaid/?lang=cy

Rhwymedigaethau statudol
Bydd gofyn i chi fodloni eich rhwymedigaethau statudol o dan y fframwaith deddfwriaethol ar gyfer Cymru. Er enghraifft, dylai derbynyddion sicrhau bod prosiectau adeiladu'n cyflawni gofynion y Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd. Ymysg y meysydd eraill i'w hystyried mae rheoliadau iechyd a diogelwch, diogelu data, deddfwriaeth hawliau dynol, a Deddf yr Iaith Gymraeg. Awgrymwn eich bod yn ceisio cyngor gan naill ai eich ymgynghorydd eich hun neu asiantaeth berthnasol y Llywodraeth.

Caffael
Mae'n rhaid i'r Gronfa Loteri Fawr gydymffurfio â chyfarwyddebau'r UE ar gaffael. Bydd angen i chi wirio a yw hyn yn berthnasol i'ch prosiect. Os ydyw, mae'n rhaid i chi dendro'n agored ar gyfer y nwyddau a'r gwasanaethau yn unol â'r gofynion hyn.

Monitro a gwerthuso

Os byddwn yn dyfarnu grant i chi, rydym am sicrhau bod eich prosiect yn gwneud gwahaniaeth. Hefyd, byddwch chi eisiau gwybod sut gynnydd mae eich prosiect yn ei wneud ac i ba raddau y mae'n cyflawni'r hyn y mae'n ceisio'i wneud, a gwneud newidiadau a fydd yn gwella eich gwasanaethau ac yn darparu gwerth gorau. Byddwn eisiau dysgu gan brosiectau a rhaglenni; hefyd mae'n rhaid i ni fod yn atebol am yr arian a fuddsoddwyd.

Mae amrywiaeth o ffyrdd i ni wneud hyn. Byddwn yn gofyn i chi am gynnydd ar eich prosiect yn rheolaidd, ac ar y diwedd byddwn yn gofyn i chi eto i ba raddau rydych wedi cyflawni eich nodau. Byddwn hefyd yn gwerthuso'r rhaglen a'r trefniadau ariannu yn gyffredinol, ac yn mynnu eich bod yn cymryd rhan yn y gwerthusiad ehangach hwn.

Monitro eich prosiect
Bydd angen i chi ddarparu gwybodaeth i ni ar adegau penodol yn ystod y prosiect er mwyn i ni ddarganfod pa wahaniaeth y mae ein harian wedi'i wneud a sicrhau ei fod yn cael ei wario'n briodol. Bydd gofyn i chi fonitro eich prosiect yn ystod cyfnod y grant, a bydd angen i chi ddweud wrthym am y mathau o bobl sy'n defnyddio eich prosiect. Byddwn yn defnyddio'r wybodaeth hon i benderfynu a yw ein rhaglenni grant yn hyrwyddo mynediad cyfartal.

Cyn i chi ddechrau ar eich prosiect, byddwn yn sicrhau eich bod yn gwybod pa wybodaeth y bydd angen i chi ei rhoi i ni yn ystod cyfnod eich grant er mwyn i chi gynllunio pa agweddau o'ch grant sydd i'w monitro.

Gwerthuso eich prosiect
Hunanwerthuso yw'r enw cyffredinol ar broses sy'n caniatáu i chi gofnodi ac adolygu eich cynnydd eich hun. Mae nifer o fanteision i wneud hyn.

- Gallwch nodi'r hyn sy'n gweithio'n dda a'r hyn nad yw'n gweithio mor dda ar gyfer eich prosiect, a'r rhesymau pam. Yna gallwch wneud newidiadau i'r ffordd rydych yn rhedeg eich prosiect er mwyn iddo gyflawni hyd yn oed yn fwy.
- Gallwch gasglu gwybodaeth a fydd yn eich helpu i adrodd i ni ac eraill am sut mae eich prosiect yn perfformio a'r hyn y mae'n ei gyflawni.
- Gallwch nodi arfer da a helpu prosiectau eraill i wella'r ffordd y maent yn gweithio.
- Yn ddiweddarach yng nghyfnod eich grant, gallwch ddarparu tystiolaeth ychwanegol i ddarpar arianwyr ynghylch llwyddiant eich prosiect, a sut rydych wedi'i addasu i amgylchiadau newidiol.
- Mae sefydlu system hunanwerthuso'n rhan o weithdrefnau cynllunio a rheoli prosiect da.

Mae hunanwerthuso'n rhywbeth rydych chi'n ei reoli. Gallwch gydweithio â phobl sy'n ymwneud â'ch prosiect i nodi'r prif faterion, sut i ymchwilio iddynt a beth i'w wneud gyda'r canfyddiadau.

Fel y sefydliad arweiniol, mae'n **rhaid** i chi ymgymryd â hunanwerthuso o fewn eich prosiect. Er mwyn eich helpu i wneud hyn, mae'n bosib y byddwn am gael cefnogaeth a chyngor gan asiantaethau eraill, neu hyd yn oed penodi ymgynghorydd. Bydd gan hunanwerthuso oblygiadau o ran amser a chost. Felly, rydym yn eich annog i gyllidebu ar gyfer hyn o fewn eich cais am grant, cyhyd â bod eich cynlluniau'n gymesur â maint y prosiect.

I gael mwy o wybodaeth am ymagweddau at hunanwerthuso, gweler:

http://www.biglotteryfund.org.uk/er_eval_self_evaluation_uk.pdf.

Cyhoeddi a chydnabod yn gyhoeddus

Yn ôl y gyfraith mae'n ofynnol i ni hysbysu'r cyhoedd am y grantiau rydym yn eu dyfarnu ac, fel rhan o'r broses hon, mae'n bosib y byddwn eisiau cynnwys eich prosiect fel rhan o'n cyhoeddusrwydd. Fodd bynnag, byddem yn sicrhau nad yw eich cyfrinachedd wedi'i gyfaddawdu wrth wneud hyn.

Rhan tri

Cyn i chi lenwi eich cais

Mae'n rhaid eich bod wedi cynllunio'ch prosiect yn fanwl cyn i chi lenwi'r ffurflen ymgeisio. Byddwn ond yn dyfarnu grantiau i sefydliadau sy'n gallu dangos i ni bod ganddynt yr adnoddau i'w rheoli'n effeithiol. Daw eich grant o arian cyhoeddus ac mae'n rhaid i chi fedru bod yn atebol am yr arian rydym yn ei roi i chi. Mae angen i chi ystyried y canlynol:

Trosglwyddo asedau a sicrwydd daliadaeth

Mae'n rhaid trosglwyddo'r ased i'ch sefydliad trydydd sector o fewn chwe mis o'r dyddiad ar y dystysgrif cwblhau ymarferol (os nad cyn hynny) Y ffurf ar ddaliadaeth y disgwyliwn y bydd eich sefydliad trydydd sector yn ei dal yw naill ai rydd-ddaliad cofrestredig NEU brydles gofrestredig ac aseiniadwy sy'n parhau am o leiaf 20 mlynedd heb gymal torri. Cyfrifir isafswm nifer y blynyddoedd sy'n weddill ar y brydles o ddyddiad y cytundeb grant.

Cyn i unrhyw arian grant gael ei ryddhau, sylwer naill ai:

- y bydd rhaid i'r trosglwyddiad asedau gael ei gwblhau

neu

- y bydd rhaid i gontract ar gyfer trosglwyddo'r rhydd-ddaliad neu gytundeb prydles fodoli sy'n nodi'n ddiamwys y caiff yr ased ei drosglwyddo , ac sy'n gwneud darpariaethau digonol er mwyn i'r brydles derfynol fod yn foddhaol i'r holl bartïon (gan gynnwys y Gronfa Loteri Fawr)

neu

- pan fydd prosiect i gael ei adeiladu ar dir y bydd deiliad y grant yn ymgymryd ag ef ar brydles ac nad yw'r brydles wedi'i chwblhau cyn rhyddhau'r arian, y gall y Gronfa fynnu bod y sefydliad sector cyhoeddus yn cofnodi cyfyngiad dros eu teitl rhydd-ddaliad er mwyn diogelu buddiant y Gronfa yn ystod cyfnod y gwaith adeiladu nes bod modd i'r brydles gael ei chwblhau a'r pridiant cyfreithiol gael ei gofrestru.

Grymuso Cymunedau

Mae'r rhaglen CAT yn canolbwyntio ar alluogi cymunedau i gael mwy o reolaeth a dylanwad dros eu datblygiad yn y dyfodol. Gan hynny, mae'n bwysig eich bod yn ystyried sut y bydd pobl yn cymryd rhan wrth benderfynu sut mae asedau lleol yn cael eu defnyddio. Dylech hefyd ystyried cynlluniau ar gyfer perchnogaeth y gymuned ar yr ased, gan gynnwys sut bydd y gymuned yn cefnogi'r prosiect drwy gymryd rhan yn weithredol mewn gwneud penderfyniadau a llywodraethu.

Partneriaethau

Mynnwn fod pob ymgeisydd yn rhan o bartneriaeth. Y ddau sefydliad y mae'n rhaid iddynt fod yn rhan ganolog o'r bartneriaeth hon yw'r prif ymgeisydd (y sefydliad trydydd sector y bydd yr ased yn cael ei drosglwyddo iddo) a'r corff sector cyhoeddus sy'n perchen ar yr ased sydd i'w drosglwyddo.

Gellir cynnwys sefydliadau partner eraill, gan y gallant ddarparu cymorth a chyngor gwerthfawr wrth gyflwyno'r prosiect a'i ganlyniadau .

I gael mwy o wybodaeth am bartneriaethau, cyfeiriwch at y ddogfen 'Working in partnership: a sourcebook' ar ein gwefan:

www.biglotteryfund.org.uk/er_eval_working_in_partnership_sourcebook_uk.pdf

Cynaladwyedd hir dymor

Mae'n hanfodol bod prosiectau sy'n derbyn arian o dan y rhaglen CAT yn ddichonol ac yn gynaliadwy yn yr hir dymor – yn economaidd, yn amgylcheddol ac yn gymdeithasol. Gan hynny, byddwn yn chwilio am dystiolaeth o:

- drefniadau rheoli a llywodraethu cadarn;
- ffynonellau amrywiol a diogel o gefnogaeth refeniw barhaus p'un ai o arian grant, arian preifat neu gynhyrchu incwm drwy fenter gymdeithasol; a
- chysylltiadau ardderchog gyda'r gymuned leol, gan ddarparu galw parhaus am y gweithgareddau a'r gwasanaethau sydd i'w cynnig.

Costio eich prosiect
Yn y ffurflen ymgeisio, mae'n rhaid i chi ddarparu cyllideb ar gyfer y prosiect sy'n dangos yr hyn y bydd y grant yn talu amdano. Mae angen i chi fedru cyfiawnhau swm yr ariannu rydych wedi gofyn amdano. Er enghraifft, os ydych eisiau i'r grant dalu am gyflogau, mae'n rhaid nodi'n eglur sut rydych wedi cyfrifo lefel y cyflogau.

Os ydych eisiau i'r grant ariannu cyflogau, mae'n rhaid i chi sicrhau eich bod yn cynnwys unrhyw gostau ychwanegol megis Yswiriant Cenedlaethol a chyfraniadau pensiwn. Byddem yn disgwyl i bob swydd newydd gael ei recriwtio'n agored; dylech gynnwys unrhyw gostau angenrheidiol er mwyn gwneud hyn.

I gael cymorth wrth gwblhau eich cyllideb ac wrth gyfrifo eich costau cyffredinol, cyfeiriwch at 'Ymgeisio am gostau cyffredinol eich prosiect: Arweiniad i Ymgeiswyr i'r Gronfa Loteri Fawr'.

Dylech ystyried eich sefyllfa TAW yn ofalus. Gall eich gallu i godi incwm fel rhan o'ch cynllun cynaladwyedd refeniw parhaus effeithio ar eich sefyllfa TAW bresennol. Wrth gyfrifo cyfanswm cost eich prosiect, dylech ystyried unrhyw gostau TAW a all godi. Ni allwn ddarparu cyngor ar TAW, felly dylech gysylltu â'ch swyddfa Cyllid a Thollau leol i drafod eich sefyllfa.

Mae'n bwysig eich bod yn rhoi gweithdrefnau ar waith ar gyfer trin a rheoli cyllideb y prosiect. Mae hyn yn cynnwys system gofnodi briodol, gwiriadau ariannol rheolaidd a chyfrifon a baratowyd yn briodol. Byddem yn disgwyl i chi gydymffurfio â'r Datganiad o Arfer Argymelledig (SORP). I gael mwy o wybodaeth am SORP, ewch i wefan y Comisiwn Elusennau yn http://www.charity-commission.gov.uk. Nid ydym yn gyfrifol am gynnwys gwefannau allanol.

Llywodraethu da
Mae llywodraethu'n golygu'r ffordd y mae eich sefydliad wedi'i sefydlu a'i redeg. Mae'n ymwneud yn rhannol â'r gweithdrefnau, y polisïau, y dogfennau a'r trefniadau rheoli sydd gennych ar gyfer y ffordd rydych yn gweinyddu ac yn rheoli eich sefydliad, gan gynnwys ei drefniadau cyllid a chyflwyno'r hyn y mae wedi'i sefydlu i'w gyflawni. Rydym wedi datblygu 'Arweiniad llywodraethu da', y gallwch ddod o hyd iddo ar ein gwefan yn y cyfeiriad canlynol:

http://www.biglotteryfund.org.uk/welsh/wales/good_governance_guide2.pdf

Rheoli a staffio
Rydym yn disgwyl eich bod wedi rhoi strwythurau digonol ar waith i reoli'r prosiect. Bydd y strwythur yn dibynnu ar y math o sefydliad, ond gallai fod yn bwyllgor rheoli, is-grŵp, bwrdd prosiect neu dîm rheoli adran.

Os ydych yn sefydliad trydydd sector sydd â phwyllgor rheoli eisoes, mae'n rhaid iddo gynnwys o leiaf tri aelod, y mae'n rhaid i un ohonynt fod yn ddeunaw oed o leiaf.

Ystyriaethau cydraddoldeb
Credwn fod sefydliadau sy'n gosod cydraddoldeb wrth wraidd dylunio prosiectau a'u rhoi ar waith yn fwy tebygol o gyflawni gwell canlyniadau. Rydym wedi datblygu canllaw o'r enw 'Materion Cydraddoldeb', sy'n darparu cymorth ymarferol ar sut i ymgorffori cydraddoldeb wrth gynllunio pynciau newydd. Mae'n esbonio egwyddorion cydraddoldeb y Gronfa Loteri Fawr a pham mae'n bwysig rhoi sylw i'r rhain os ydych yn ymgeisio i'r Gronfa Loteri Fawr am grant. Gallwch ddod o hyd i 'Materion Cydraddoldeb' ar ein gwefan yn y cyfeiriad canlynol:

http://www.biglotteryfund.org.uk/welsh/wales/equality_matters.pdf

Cynllun Iaith Gymraeg
O dan Gynllun Iaith Gymraeg y Gronfa Loteri Fawr, mae'n ofynnol i brosiectau ddangos sut maent yn hygyrch i siaradwyr Cymraeg yn eu cymuned. Mae hyn yn cynnwys darparu'r holl ddeunyddiau a ariennir gan y grant yn Gymraeg a Saesneg, hysbysebu'n ddwyieithog unrhyw swyddi a ariennir gan y grant ac ystyried natur ieithyddol y gymuned drwy gydol bywyd y grant.

Ceir arweiniad pellach ynglŷn â'r gofynion hyn yng Nghynllun Iaith Gymraeg y Gronfa Loteri Fawr http://www.biglotteryfund.org.uk/welsh/wales/about-wal/welsh_language.htm?regioncode=-wal&regioncode=-wal

Polisïau a gweithdrefnau
Mae'n bwysig bod gennych bolisïau a gweithdrefnau priodol ar gyfer rheoli'r prosiect a'ch bod yn esbonio sut bydd y rhain yn berthnasol i'r prosiect. Gall y rhain gynnwys polisïau megis: cyfle cyfartal, iechyd a diogelwch a gweithdrefnau a fydd yn caniatáu i chi reoli eich llywodraethu, eich cyllid, eich staff ac unrhyw agweddau ar waith eich prosiect. Mae'n bwysig eich b od yn bodloni ein hegwyddorion cydraddoldeb, wedi'u rhestru ar ddechrau'r nodiadau arweiniad hyn

Os ydych yn ymgeisio ar gyfer prosiect i weithio gyda phlant, pobl ifanc neu oedolion bregus, bydd angen i ni sicrhau bod y plant, y bobl ifanc a'r oedolion bregus rydych yn gweithio gyda hwy'n ddiogel. Bydd rhaid o leiaf i chi feddu ar bolisi sy'n esbonio sut byddwch yn sicrhau hyn a rhoi'r polisi hwnnw ar waith. Chi sy'n gyfrifol am roi polisïau a gweithdrefnau diogelu plant, pobl ifanc ac oedolion diamddiffyn ar waith, y gall y Gronfa Loteri Fawr ofyn i'w harchwilio unrhyw bryd.

Cefnogaeth a chyngor
Efallai bod gennych gwestiynau ynglŷn ag ymgeisio, cynllunio neu gyflwyno eich prosiect. Mae sawl ffynhonnell cyngor a chymorth, yn amrywio o ffrydiau ariannu (grantiau neu fenthyciadau) neu gefnogaeth arall, megis cyngor cynllunio busnes, hyfforddiant, cyfleoedd rhwydweithio, gwybodaeth am arfer gorau a chyngor pellach ar ariannu. Rydym wedi creu rhestr o rai sefydliadau a allai fod yn ddefnyddiol i chi ar dudalennau CAT ein gwefan. Mae ein gwefan yn cynnwys cwestiynau cyffredin ynglŷn â'r rhaglen CAT a allai fod yn ddefnyddiol hefyd.

Ar hyn o bryd mae'r Gronfa Loteri Fawr yn ystyried penodi contractwr cefnogi i gynorthwyo prosiectau sy'n cael eu gwahodd i gyflwyno cais cam dau. Caiff manylion pellach am hyn eu rhyddhau i ymgeiswyr llwyddiannus yn ystod hydref 2010.

Atodiad Un: Rhestr Termau

Adnewyddu
Adnewyddu, ailosod neu adfer

Asedau cyfalaf
Asedau sydd â gwerth ariannol mawr megis tir, adeiladau, cyfarpar a cherbydau.

Barn gyfreithiol
Dogfen ysgrifenedig sy'n gadarnhad gan y cyfreithiwr ei fod yn credu bod gan y derbynnydd y grym cyfreithiol i lofnodi amodau a thelerau'r grant ac unrhyw bridiant cyfreithiol neu ddogfen arall y byddwn, o bosib, yn gofyn i dderbynnydd y grant ei llofnodi.

BREEAM
Dull Asesu Amgylcheddol y Sefydliad Ymchwil Adeiladu – ystyrir BREEAM yn gyffredinol fel mesur arfer da mewn dylunio a rheoli amgylcheddol.

Caniatâd cynllunio
Caniatâd gofynnol gan yr awdurdod lleol i adeiladu ar dir neu newid defnydd tir neu adeiladau.

Chwiliadau
Cwestiynau sy'n cael eu gofyn cyn prynu tir neu adeiladau i wirio a oes unrhyw hawliau, cyfyngiadau, cyfamodau neu faterion eraill sy'n effeithio ar yr eiddo a all achosi problem i'r perchennog newydd.

Cofnodion andwyol
Unrhyw beth a geir ar ddogfennau sy'n profi teitl perchennog y tir i'r tir a allai effeithio ar allu perchennog y tir i ddefnyddio'r holl dir neu ran ohono at ddibenion y grant neu a allai gyfyngu ar y defnydd o rannau penodol o'r tir at ddiben penodol neu a allai gael effaith andwyol ar werth y tir.

Cofrestrfa Tir
Y gronfa ddata tir genedlaethol lle gall perchnogion tir gofrestru eu perchnogaeth. Os byddant yn gwneud hynny, mae eu tir yn Dir cofrestredig. Gall unrhyw un ddarganfod pwy sy'n berchen ar ddarn o dir os yw wedi'i gofrestru yn y Gofrestrfa Tir.

Contractwr
Y sefydliad sy'n cyflawni'r gwaith adeiladu am gost y cytunwyd arni ymlaen llaw.

Costau cyffredinol
Trwy gostau cyffredinol, golygwn gost gweithwyr, gwirfoddolwyr, cyfarpar, lle a gwasanaethau sy'n cefnogi'n rhannol y prosiect rydych am i ni ei ariannu, ond sydd hefyd yn cefnogi eich gwaith.

Cyfamod
Addewid ffurfiol i berson arall i weithredu neu beidio â gweithredu.

Cyfamod cyfyngu
Cyfamod a gydnabyddir mewn gweithred neu brydles sy'n cyfyngu ar ddefnydd rhydd o eiddo neu ei ddeiliadaeth.

Cyfnod monitro asedau
Y cyfnod y byddwn yn monitro eich prosiect i sicrhau bod diben y grant yn cael ei gyflawni. Yn ystod y cyfnod hwn, chi fydd yn gyfrifol o'n safbwynt ni am gyflwr a defnydd y tir a'r adeiladau a ariennir gan y grant, gan ddechrau o ddyddiad y cytundeb grant.

Cyfyngiad (ar deitl)
Cofnod a wneir ar y copi swyddogol o deitl yn y gofrestrfa tir (gweler tir cofrestredig) sy'n hysbysu rhywun am fuddiant y benthyciwr yn yr eiddo. Bydd y cyfyngiad yn rhybuddio unrhyw un a allai fod yn dechrau trafodion gyda'r eiddo hwnnw y bydd angen caniatâd y benthyciwr ar y perchennog cyn gwerthu neu lesio'r tir.

Cymal torri
Darpariaeth mewn prydles sy'n caniatáu i'r landlord neu'r tenant neu'r ddau ddod â'r brydles i ben cyn i'r cyfnod blynyddoedd llawn ddod i ben.

Cymorth gwladol
Mae cymorth gwladol yn derm y CE ar gyfer unrhyw gefnogaeth gyhoeddus a roddir yn ddewisol i fusnes a allai effeithio ar gystadlu a masnachu rhyng-gymunedol. Gall cymorth gwladol a ddarperir gan Aelod-wladwriaethau'r Undeb Ewropeaidd wyrdroi'r farchnad, ac yn ei dro mae hynny'n gallu arwain at lai o gystadleuaeth ar gyfer busnesau, llai o arloesedd ac yn y pen draw, prisiau uwch i ddefnyddwyr. Gan hynny, mae angen rheoli cymorth gwladol yn effeithiol er mwyn cynnal sefyllfa gyson ar gyfer cystadleuaeth rydd a theg yn y farchnad sengl.

Cymuned buddiant
Grŵp cydweithredol o bobl sy'n rhannu budd, nod, cenhadaeth neu broses fusnes ar y cyd na ellir eu diffinio fesul ardal ddaearyddol benodol.

Cytundeb prydles neu gytundeb i lesio
Cyn i'r tenant ymgymryd â phrydles (gan gadarnhau ei berchnogaeth ar brydles), mae'n bosib y bydd y landlord yn cadarnhau mewn dogfen ysgrifenedig o'r enw cytundeb i lesio y bydd yn rhoi prydles i'r tenant os bodlonir amodau penodol. Os nad ydynt wedi'u bodloni, ni fydd y tenant yn derbyn perchnogaeth ar brydles. Felly mae'n rhaid i chi fod yn sicr y gallwch fodloni amodau cytundeb i lesio os yw'r grant yn dibynnu ar eich meddiant chi ar berchnogaeth ar brydles.

Daliadaeth
Ffurf ar hawl (teitl) ar gyfer dal neu feddiannu tir neu adeilad (rhydd-ddaliad neu brydles neu drwydded).

Dechrau'r Prosiect
Trwy ddechrau, golygwn eich bod wedi dechrau gwario ac y bydd gofyn i chi dynnu eich arian grant i lawr.

Diben y grant
Yr hyn y mae'n rhaid defnyddio ein grant ar ei gyfer.

Estyniad
Lle ychwanegol a adeiledir ar adeilad sydd eisoes yn bodoli.

Gosodiadau a ffitiadau
Eitemau y tu mewn i adeilad sydd ynghlwm wrth y waliau/nenfydau/lloriau neu wedi'u hymgorffori yn yr adeilad, er enghraifft socedi trydan a ffitiadau golau.

Gwaith adeiladu a pheiriannu
Gwaith y mae ei angen i gyflwyno prosiect, megis estyn, moderneiddio neu drawsnewid.

Gwaith allanol
Gwaith ar neu yn y tir o gwmpas adeilad, er enghraifft gwaith draenio, ffyrdd a llwybrau a thirweddu.

Gweinyddwr y contract
Y person neu'r sefydliad (e.e. pensaer, technolegydd neu dechnegwr pensaernïol, peiriannwr neu syrfëwr adeiladu) a enwir o fewn contract adeiladu i reoli telerau'r contract rhyngoch chi a'r contractwr.

Gweithiwr adeiladu proffesiynol
Ymgynghorydd proffesiynol â hyfforddiant a gwybodaeth arbenigol sydd wedi'i gyflogi gennych i weithredu ar eich rhan.

Hawddfraint
Hawl dros eiddo y mae rhywun arall yn perchen arno e.e. yr hawl i groesi tir gyda cherbydau neu drwy osod pibellau a cheblau.

Menter gymdeithasol
Busnes sydd ag amcanion cymdeithasol yn bennaf y mae ei wargedion yn cael eu hail-fuddsoddi'n bennaf yn y busnes neu'r gymuned, yn hytrach na chael ei symbylu gan yr angen am fwyafu elw i gyfranddalwyr a pherchnogion.

Pridiant cyfreithiol
Dogfen gyfreithiol sy'n cofrestru buddiant y person sydd wedi benthyg neu roi'r arian / buddiant y Gronfa Loteri Fawr yn yr eiddo. Mae'r pridiant cyfreithiol yn atal perchennog yr eiddo rhag gwerthu'r tir heb ganiatâd y benthyciwr, felly mae'r pridiant yn sicrwydd cyfreithiol ar gyfer y benthyciad/grant. Os aiff y perchennog yn fethdalwr neu os bydd yn methu â chadw at y rheolau ynglŷn â sut mae'n rhaid defnyddio'r arian, dylai'r pridiant cyfreithiol olygu y gellir adennill yr holl arian neu ran ohono.

Prydles
Cytundeb rhwng landlord a thenant sy'n rhoi'r hawl i'r tenant feddu ar yr eiddo ar brydles yn amodol ar dalu rhent. O dan amgylchiadau arferol, mae'r tenant yn rhydd i wneud beth bynnag y mynno gyda'r eiddo ar hyd y brydles, cyhyd â'i fod yn cydymffurfio â gofynion y brydles.

Prydles
Ffurf ar berchen ar dir y mae'r tenant yn ei dal gan landlord am nifer penodol o flynyddoedd.

Prydles aseiniadwy
Term a ddefnyddir ar gyfer tir ac adeiladau ar brydles i ddangos p'un a ellir gwerthu neu roi'r tir a'r adeiladau i berchennog arall. Bydd y brydles yn nodi p'un a ellir rhoi neu werthu'r tir a'r adeiladu i berchennog arall ac felly a yw'r brydles yn aseiniadwy neu beidio. Yn aml bydd y brydles yn cynnwys nifer o amodau y mae'n rhaid eu bodloni cyn bod y brydles yn aseiniadwy. Gall yr amodau hyn gynnwys cael caniatâd gan y landlord.

Pwyllgor rheoli
Aelodau corff llywodraethu eich sefydliad (a elwir, o bosib, yn ymddiriedolwyr, cyfarwyddwyr, aelodau o'r pwyllgor rheoli).

Rhent rhad
Swm bach o rent a delir i gadw hawl, neu deitl, mewn grym

Rheoli asedau
Gweithgareddau ac arferion systematig a chydlynol y mae sefydliad yn eu defnyddio i reoli'i asedau a'i systemau asedau, eu perfformiad, risgiau a gwariant cysylltiedig dros eu cylch bywyd mewn ffordd optimaidd a chynaliadwy at ddibenion cyflawni cynllun strategol y sefydliad

Rheoliadau CDM
Rheoliadau Adeiladu (Dylunio a Rheoli) 2007. Mae'r rhain yn cynnwys rheoliadau iechyd a diogelwch ar gyfer gwaith adeiladu.

Rhydd-ddaliad
Ffurf ar berchen ar dir neu adeiladau lle na ellir cymryd perchnogaeth i ffwrdd o'r perchennog oni bai ei fod yn cytuno i hynny. Dyma'r ffordd fwyaf parhaol i rywun berchen ar dir neu adeiladau. Mae'r perchennog yn berchen ar yr eiddo am byth, neu tan iddo ei werthu neu ei roi i ffwrdd. Nid oes angen iddo dalu unrhyw un am ddefnyddio'r tir a'r adeiladau.

RIBA (Sefydliad Prydeinig Penseiri Prydain)
Dyma gorff cymhwyso Prydain ar gyfer penseiri.

Sector cyhoeddus
Mae'r sector cyhoeddus yn cynnwys llywodraeth ganolog, llywodraeth leol a chorfforaethau cyhoeddus fel y diffinnir ar gyfer Cyfrifon Cenedlaethol y DU. Dangosir rhestri o'r rhain yng Nghanllaw Dosbarthu Sector Cyfrifon Cenedlaethol y DU ar y wefan Ystadegau Gwladol.

- Mae llywodraeth ganolog yn cynnwys holl adrannau gweinyddol y llywodraeth ac asiantaethau canolog eraill ynghyd â chyrff cyhoeddus anadrannol.
- Mae llywodraeth leol yn cynnwys holl unedau'r llywodraeth sydd â chylch gwaith lleol.
- Mae corfforaethau cyhoeddus yn gwmnïau neu lled-gorfforaethau sydd wedi'u rheoli gan y llywodraeth.

At ddiben y rhaglen CAT, caiff Prifysgolion, Colegau a sefydliadau addysg uwch eraill eu dosbarthu fel sector cyhoeddus hefyd.

Sector preifat
Unig fasnachwyr a sefydliadau a redir er elw preifat nad ydynt wedi'u rheoli gan y wladwriaeth.

Siart Gantt
Cynrychioliad ar ffurf lluniau o gynllun prosiect, sy'n dangos gweithgareddau, cerrig milltir a dibyniaethau.

Sicrwydd Daliadaeth
Hawl da a chryf sydd fel arfer wedi'i gofnodi'n gadarn i berchen ar eiddo neu ei ddefnyddio am gyfnod o amser.

Swm wrth gefn
Swm o arian (a fynegir fel canran fel arfer) sydd wedi'i ymgorffori yng nghyfanswm costau'r prosiect rhag ofn bod rhan o'r prosiect yn costio mwy nag yr oeddech wedi'i dybio.

Targed CAMPUS
Targed cyraeddadwy, amserol, mesuradwy, penodol, uchelgeisiol a synhwyrol.

TAW na ellir ei hadennill
TAW a godir ar brynu nwyddau a gwasanaethau, neu drafodion na allwch ei hadennill gan Gyllid a Thollau EM.

Dylech geisio arweiniad a chael cadarnhad ysgrifenedig o'r sefyllfa TAW mewn perthynas â'ch prosiect arfaethedig. Gall biliau TAW annisgwyl ychwanegu'n sylweddol at gyfanswm cost eich prosiect cyfalaf.

Teitl
Yr hawl gyfreithiol i ddal neu feddiannu eiddo.

Tenant
Deiliad neu berchennog prydles sy'n talu rhent i'r landlord am gael defnyddio'r eiddo.

Tendr
Proses ffurfiol sy'n caniatáu i gontractwyr gyflwyno cynnig i gyflenwi gwasanaeth neu gyflawni gwaith am gost benodol

Tir Cofrestredig
Mae tir cofrestredig wedi'i lywodraethu, ei gynnal a'i gadw gan y system Cofrestru Tir. Dyrennir rhif teitl unigryw i dir ac adeiladau sydd wedi'u cofrestru yn y gofrestrfa tir. Mae'r darn penodol o dir wedi'i gofnodi gan 'gopi swyddogol o deitl' y gofrestrfa tir, sy'n dangos rhif y teitl, disgrifiad o'r eiddo, enw perchennog y tir (perchennog cofrestredig) ac unrhyw faterion eraill sy'n berthnasol i'r tir ac wedi'u cofnodi gan y gofrestrfa tir.

Trosglwyddwr trwyddedig
Person sy'n gymwys i baratoi'r dogfennau cyfreithiol a chyflawni'r broses gyfreithiol o drosglwyddo perchnogaeth eiddo (fel dewis arall i ddefnyddio cyfreithiwr).

Trydydd sector
Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru'n diffinio'r trydydd sector fel sefydliadau sy'n annibynnol i'r wladwriaeth, gyda symbyliad sy'n tarddu o werthoedd a dibenion cymdeithasol yn hytrach na cheisio gwneud elw, ac sy'n ail-fuddsoddi gwargedion yn bennaf er budd y gwerthoedd hyn yn hytrach na'u darparu i'w dosbarthu'n breifat.

Tystysgrif cwblhau ymarferol
Dogfen ffurfiol a gyflwynir o dan y contract adeiladu (gan weinyddwr y contract) sy'n dangos bod y gwaith adeiladu wedi'i gwblhau heblaw am unrhyw ddiffygion sydd i'w cywiro gan y weithdrefn cywiro diffygion.

Tystysgrif o gwblhad ymarferol
Tystysgrif a gyflwynir sy'n nodi bod y gwaith wedi'i gwblhau i bob pwrpas ymarferol. Er nad yw pob agwedd arno o reidrwydd wedi'i gwblhau, dylai'r adeilad fod yn ddiogel ac yn addas i'w ddefnyddio. Mae cyflwyno'r dystysgrif hon yn garreg filltir arwyddocaol o ran y contract.

Tystysgrif Teitl
Dogfen ysgrifenedig (ar ein ffurflen safonol) gan gyfreithiwr sy'n cadarnhau bod derbynnydd y grant yn berchennog y tir a'r adeiladau, ar brydles neu rydd-ddaliad, y mae'r grant yn ymwneud â nhw ac nad oes unrhyw beth o ran y tir a'r adeiladu a allai atal y grant rhag cael ei ddefnyddio at ddiben y grant.

Tystysgrif yswiriant adeiladu
Tystysgrif i ddangos bod yr adeilad a'i ddefnydd wedi'u hyswirio.

Atodiad Dau: Enghreifftiau o Brosiectau

Canolfan eco-dwristiaeth a gweithgareddau awyr agored

Caiff canolfan eco-dwristiaeth newydd ei hadeiladu ar ymylon coedwig a gaiff ei throsglwyddo i ddwylo ymddiriedolaeth goetir ar brydles 75 mlynedd. Bydd yr ymddiriedolaeth yn defnyddio'r grant a ddyfarnwyd i gymryd y tir drosodd ac ariannu adeiladu'r ganolfan. Nod y prosiect yw annog cadwraeth a defnyddio'r awyr agored fel ffynhonnell gweithgareddau hamdden ac addysgol i bobl o bob cwr o Gymru. Dyma faes o ddiddordeb penodol ar gyfer y sefydliad cenedlaethol hwn y mae ei genhadaeth yw hyrwyddo cadwraeth. Bydd y prosiect hefyd yn hyrwyddo'r cysylltiadau sydd gan y nodau hyn o tan sefydlu economi leol gynaliadwy.

Mae rhwydweithiau cynhwysfawr o deithiau cerdded, llwybrau beicio a meysydd chwarae wedi'u cynllunio. Bydd y prosiect hefyd yn cydweithio ag ysgolion lleol a sefydliadau eraill i ddarparu amrywiaeth eang o gyfleoedd addysg gymunedol megis ymweliadau gan ysgolion neu weithdai i oedolion sy'n canolbwyntio ar gadwraeth, ffyrdd iach o fyw a gweithgareddau hamdden.

Caiff gweithgareddau addysg a thwristiaeth awyr agored eu rhedeg o'r ganolfan, ond wedi'u lleoli o fewn y coetir lleol. Bydd y prosiect yn ceisio dod o hyd i incwm o amrywiaeth o ffynonellau. Mae'r ganolfan ei hun wedi'i dylunio i ddarparu llety i ymwelwyr, cyfleusterau cynadledda ac unedau manwerthu graddfa fach, gan gynnwys caffi i dwristiaid. Ar ben hynny, bydd y coetir yn darparu cyfleoedd ar gyfer diwygio sgiliau hanesyddol sy'n seiliedig ar brysgoedio a hyrwyddo'r defnydd o ffynonellau pren cynaliadwy lleol.

Bydd costau'n cael eu lleihau drwy gynllun cynhyrchu ynni graddfa fach ar y safle, gan ddarparu canran o'r ynni y mae ei angen drwy gydol y flwyddyn. Mae'r cynigion yn cynnwys creu cynllun trydan dŵr o afon y coetir a phaneli solar ar do'r ganolfan

Mae grwpiau cadwraeth a thrigolion lleol wedi ymwneud yn helaeth o'r dechrau ac mae hyn wedi hyrwyddo ymdeimlad o berchnogaeth. Bydd rheolwr y ganolfan, a ariennir drwy'r grant, yn goruchwylio rheoli'r ganolfan a'r coetir. Bydd prosiectau cadwraeth presennol yn cael eu hadleoli i'r ganolfan, gan arbed ar rent a chostau cyffredinol. Caiff agweddau eraill y prosiect eu cyflwyno mewn nifer o ffyrdd, gan amrywio o staffio'r ganolfan a darparu amser ar waith cadwraeth i arwain teithiau cerdded drwy'r coetir.

Canlyniadau'r Prosiect

- **Canlyniad rhaglen 1: adeiladu gallu cymunedau mentrus**
  Mae 20 o wirfoddolwyr wedi cael eu recriwtio a'u hyfforddi i reoli'r ganolfan a'i gweithgareddau, gan arwain at ymdeimlad cynyddol y gymuned o berchen ar y prosiect.
- **Canlyniad rhaglen 2: adfywio cymunedau a'u cynaladwyedd economaidd**
  Crëwyd chwe swydd newydd yn y diwydiant pren lleol, gan gadw sgiliau yn yr ardal a darparu cyflogaeth newydd erbyn blwyddyn pump.
- **Canlyniad rhaglen 3: hyrwyddo a chryfhau sefydliadau trydydd sector**
  Ar ôl blwyddyn tri, bydd y prosiect yn fwy cynaliadwy ar ôl arbed £10,000 drwy adleoli ei bencadlys i'r ganolfan newydd.
- **Canlyniad rhaglen 4: gwella gwaith partneriaeth**
  Ar ôl yr ail flwyddyn, mae pedwar sefydliad wedi creu cysylltiadau â'r prosiect er mwyn rhannu arfer da mewn perthynas â byw'n iach a'r awyr agored.

Parc Menter

Mae'r prosiect yn ceisio creu gwelliannau yn ansawdd bywyd cymunedau'r ardal drwy fynd i'r afael â phroblemau cymdeithasol ac economaidd lleol. Bydd yn cyflawni hyn drwy wella gwasanaethau lleol, darparu hyfforddiant ac adeiladu gallu mentrau cymunedol. Datblygwyd y prosiect wrth ymateb i angen a nodwyd am gefnogaeth ansawdd uchel ar gyfer busnesau'r ardal

Bydd y grant yn caniatáu i'r ymgeisydd symud o'i adeilad presennol ac ehangu ei weithrediadau cyfredol yn sylweddol drwy ymgymryd â phrydles hir dymor ysgol gynt am rent rhad. Bydd y grant yn talu am waith adeiladu y mae ei angen i greu unedau a reolir ar y safle, a gaiff ei redeg gan is-gwmni masnachu ar wahân. Bydd yr ymgeisydd yn darparu cymorth busnes ar y safle i fusnesau graddfa fach, ac yn helpu grwpiau difreintiedig lleol i ddod o hyd i gyflogaeth drwy bartneriaethau gyda'r rhai sy'n rhentu lleoedd gweithio. Bydd hefyd yn helpu i ddatblygu hyder pobl ifanc leol drwy rannau eraill o'i waith elusennol ac yn cynyddu cyfleoedd hyfforddiant mewn crefftau medrus drwy bartneriaethau â busnesau sy'n rhentu unedau yn y parc

Mae cytundeb eisoes wedi'i lunio hefyd i ehangu prosiect presennol a redir gan yr ymgeisydd i gynnwys cynllun warden cymunedol mewn un o'r unedau. Caiff hyn ei ariannu drwy gytundeb lefel gwasanaeth gyda'r awdurdod lleol. Caiff unedau eraill eu rhentu i amrywiaeth o fusnesau bach, gan gynnwys canolfan plymwyr. Bydd gosodiadau tymor byr a sefydliad hyblyg yn annog ac yn hyrwyddo busnesau lleol.

Bydd yr incwm a gynhyrchir yn cefnogi gwaith elusennol ehangach y sefydliad yn y gymuned o safbwynt ariannol, gan leihau ei ddibyniaeth ar grantiau a chan sicrhau cynaladwyedd hir dymor.

Canlyniadau'r prosiect

- **Canlyniad rhaglen 1: adeiladu gallu cymunedau mentrus**
  Mae 9 person ifanc lleol wedi ymgymryd â lleoliad gwaith, gan wella eu hunanhyder a'u sgiliau erbyn diwedd y prosiect.
- **Canlyniad rhaglen 2: adfywio cymunedau a'u cynaladwyedd economaidd**
  Mae un busnes newydd wedi'i greu gan ddilyn cefnogaeth fusnes a ddarparwyd gan y prosiect ar ôl tair blynedd.
- **Canlyniad rhaglen 3: hyrwyddo a chryfhau sefydliadau trydydd sector**
  Mae dwy uned ar y safle wedi cael eu gosod i fusnesau bach lleol ar ôl tair blynedd, gan gryfhau annibyniaeth ariannol y prosiect.
- **Canlyniad rhaglen 4: gwella gwaith partneriaeth**
  Mae dwy bartneriaeth wedi'u creu gyda deiliaid y parc busnes i gymryd lleoliadau gwaith erbyn diwedd cyfnod ariannu'r prosiect.

Prosiect amgylcheddol a busnes amgylcheddol cymunedol

Caiff swm sylweddol o dir a dau adeilad bach eu caffael am ddim ar ôl trosglwyddo rhydd-ddaliad. Bydd y sefydliad cymunedol sy'n caffael yr asedau'n darparu cyfleoedd addysg, hyfforddiant a chyflogaeth sy'n gysylltiedig â'r amgylchedd a busnes amaethyddol. Mae wedi gweithio'n galed i annog cyfranogiad y gymuned gyfan ac wedi ymgynghori ar yr hyn y mae ei angen i helpu i gynhyrchu cyfleoedd cyflogaeth. Bydd hyfforddiant yn bosib ar gyfer sgiliau busnes, garddwriaeth, amaeth a rheoli tir er mwyn hyrwyddo cadw sgiliau mewn cymunedau gwledig.

Bydd y prosiect yn cynhyrchu incwm cynaliadwy drwy gynlluniau ailgylchu a rheoli gwastraff. Bydd compostio gwastraff gwyrdd o nifer o ffynonellau ac ailgylchu ar raddfa fach yn darparu swyddi lleol ac ar yr un pryd, mae cynlluniau ac arian cyfatebol ar waith ar gyfer adeiladu cynllun gwresogi biomàs newydd a fydd yn datblygu sgiliau'r sefydliad mewn ynni adnewyddadwy.

Bydd trawsnewid yr adeiladau presennol yn defnyddio deunyddiau lleol i gydweddu â'r amgylchedd lleol a lleihau'r effaith amgylcheddol. Bydd y cyfleusterau a ddatblygir yn cynnig cyfle i hyrwyddo ac arddangos dylunio sy'n defnyddio ynni'n effeithlon i'w ymwelwyr. Bydd hyn yn cynnwys caffi sy'n darparu gwasanaeth bwffe i fusnesau lleol a hyrwyddo bwyta'n iach yn y gymuned.

Caiff ffynonellau incwm eraill eu cynhyrchu drwy hurio ystafelloedd cyfarfod, cynhyrchu bwyd (gan gynnwys darpariaeth ar gyfer rhandir cymunedol), crefftau traddodiadol a siop sy'n gwerthu cynnyrch ffermydd lleol. Mae'r prosiect eisoes wedi sefydlu cysylltiadau busnes gyda chynhyrchwyr a dosbarthwyr lleol ac yn gobeithio y bydd yn codi proffil cynhyrchu bwyd lleol yn ogystal â bod yn siop un alwad i'r gymuned.

Mae'r prosiect yn ceisio addysgu pobl am fanteision cynhyrchu bwyd lleol a byw'n iach, drwy sefydlu cysylltiadau ag ysgolion lleol. Yn ogystal â rheolwr y ganolfan a'r swyddog datblygu prosiectau, bydd gan y cynllun gronfa fawr o wirfoddolwyr o'r gymuned a fydd yn rhedeg sawl agwedd arall ar y prosiect.

Canlyniadau'r prosiect

- **Canlyniad rhaglen 1: adeiladu gallu cymunedau mentrus**
  Mae'r prosiect wedi sicrhau ei ail gontract graddfa fawr erbyn y bedwaredd flwyddyn.
- **Canlyniad rhaglen 2: adfywio cymunedau a'u cynaladwyedd economaidd**
  Erbyn diwedd y prosiect mae chwe swydd wedi'u cadw drwy ddarparu gwasanaethau compostio gwastraff gwyrdd ar ran yr awdurdod lleol.
- **Canlyniad rhaglen 3: hyrwyddo a chryfhau sefydliadau trydydd sector**
  Bydd o leiaf dwy ffynhonnell incwm sy'n darparu dros 40 y cant o'r costau rhedeg wedi cael eu creu erbyn diwedd y prosiect.
- **Canlyniad rhaglen 4: gwella gwaith partneriaeth**
  Sefydlwyd cynllun lleoliadau gwaith gyda thair ysgol i hyrwyddo gwirfoddoli ac addysg bwyta'n iach yn y ganolfan.